Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Cynaliadwyedd ariannol y sector addysg uwch yng Nghymru

Y flwyddyn academaidd 2024/25; rhagolygon 2025/26 i 2027/28

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
www.medr.cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Cynnwys 2
Cyflwyniad 3
Goruchwyliaeth reoleiddiol Medr....4
Crynodeb allweddol 5
Risgiau a mesurau lliniaru 9
Mesurau lliniaru – crynodeb 14
Perfformiad ariannol 15
Incwm....17
Incwm o ffioedd dysgu 17
Grantiau cyrff cyllido 19
Gweithgarwch ymchwil 20
Incwm arall 20
Gwariant....20
Costau staff 21
Costau gweithredu eraill 22
Y sefyllfa weithredu sylfaenol 22
Cywirdeb rhagolygon....23
Solfedd a gwydnwch ariannol....24
Hylifedd 24
Mewnlifoedd / (all-lifoedd) arian parod net o weithgareddau gweithredu....25
Benthyca 27
Gwariant cyfalaf....28
Rhwymedigaethau pensiwn....29
Ymagwedd dryloyw at gostio a phrisio (TRAC)....29
Atodiad A: Penawdau sefydliadau 32

Cyflwyniad

Un o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru yw Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) ac fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 er mwyn ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- addysg bellach
- addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg seiliedig ar waith
- prentisiaethau
- chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol

Mae dyletswydd statudol ar Medr i fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan ddarparwyr gynlluniau credadwy i sicrhau eu hyfywedd ariannol yn y tymor byr a'u cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Yn y cyhoeddiad hwn, ceir ein hasesiad o gynaliadwyedd ariannol y sector addysg uwch yng Nghymru.

Cwmpas yr adroddiad

Mae ein hasesiad ar lefel y sector yn seiliedig ar y datganiadau ariannol blynyddol a gyhoeddwyd gan brifysgolion ar gyfer blynyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25[1]. Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn cynnwys wyth sefydliad sy'n amrywio'n fawr[2]. Ni ddylid ystyried bod ffigurau cyfanredol ar lefel y sector yn ddangosyddion ar gyfer sefyllfa ariannol unrhyw sefydliad unigol.



Nid yw'r adroddiad yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru am nad yw'n dadgyfuno data ariannol ar sail ranbarthol. Nid yw'n cynnwys Prifysgol Cymru chwaith, am nad yw'n gorff dyfarnu ar gyfer sefydliadau eraill yng Nghymru ar hyn o bryd ac am fod ganddi weithgarwch cyfyngedig fel endid annibynnol. Nid yw sefydliadau addysg bellach, colegau chweched dosbarth na darparwyr addysg uwch amgen wedi'u cynnwys chwaith.

Mae Medr yn ei gwneud yn ofynnol i brifysgolion baratoi rhagolygon pum mlynedd cyfrinachol a gaiff eu cymeradwyo gan eu cyrff llywodraethu. Bydd y rhain yn cynnwys gwaith modelu “dim twf” a “senario ochr waethaf”, yn ychwanegol at unrhyw waith modelu ochr waethaf penodol y bydd pob sefydliad yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol yn seiliedig ar eu hasesiad eu hunain o risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'u rhagolygon. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ein hasesiad o'r wybodaeth gyfrinachol lefel uchel o ragolygon a gyflwynwyd i Medr ar gyfer blynyddoedd academaidd 2025/26; 2026/27; a 2027/28. Mae hyn yn helpu i roi syniad o ddisgwyliadau'r sector ar gyfer blynyddoedd sydd i ddod.

Mae cyrsiau gradd amser llawn yn rhan ganolog o incwm prifysgolion ac, fel arfer, byddant yn rhoi tair blynedd o incwm sicr o gymharu â blwyddyn ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig. Felly, mae'n bwysig paratoi rhagolygon sy'n modelu effaith cynnydd carfannau presennol o fyfyrwyr israddedig yn ogystal â rhagolygon ar gyfer myfyrwyr newydd y dyfodol. Mae blynyddoedd diweddar wedi dangos

[1] Cyhoeddir data agored yn HE Finance Data | HESA. Caiff ffynonellau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd eu cydnabod yn unigol.
[2] Prifysgolion yw'r holl sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, a chaiff y termau hyn eu defnyddio'n gyfnewidiol.

yn glir mor agored yw'r sector addysg uwch i effeithiau pwysau economaidd, pwysau geowleidyddol a phwysau eraill sydd y tu hwnt i reolaeth sefydliadau ac sy'n anodd eu rhagweld. Mae cystadleuaeth am fyfyrwyr rhwng darparwyr y DU a darparwyr byd-eang a phwysau chwyddiant ar gostau yn ychwanegu at yr her sy'n gysylltiedig â llunio rhagolygon cywir o berfformiad yn y dyfodol.

Felly, dylid ystyried mai'r wybodaeth o ragolygon sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn yw asesiad gorau'r sector o flynyddoedd sydd i ddod ar adeg benodol (ar ddechrau'r haf cyn dechrau blwyddyn gyntaf y rhagolwg). Mae'n anos llunio rhagolygon dibynadwy ar gyfer blynyddoedd diweddarach gan y byddant yn newid mor aml ag sy'n ofynnol gan yr amgylchiadau. Felly, dylid ystyried mai rhagolygon cynnar a dangosol yn unig yw'r rhai ar gyfer blynyddoedd diweddarach. Cyfanrediad yw'r data o ragolygon a gyflwynir yma, ac ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio i ddod i gasgliadau ar lefel sefydliadau.

Goruchwyliaeth reoleiddiol Medr

Mae Medr yn monitro iechyd ariannol y sector addysg uwch yng Nghymru yn seiliedig ar y Cod Rheoli Ariannol a sefydlwyd gan ein rhagflaenydd, sef Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Rydym yn gweithio'n agos gyda phob un o'r prifysgolion i ddatblygu dealltwriaeth o'u hamgylchiadau, eu heriau a'u strategaethau unigol, gan feithrin deialog agored a thryloyw a gweithredu ar sail “dim byd annisgwyl”. Rydym yn ymgysylltu'n helaeth ac yn rheolaidd ag aelodau allweddol o'u huwch-dimau arwain, a'u cyrff llywodraethu lle bo hynny'n briodol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r corff sy'n cynrychioli'r sector addysg uwch, sef Prifysgolion Cymru. Bydd pa mor aml y bydd Medr yn ymgysylltu â nhw yn seiliedig ar ein hasesiad o lefel y risg ariannol sy'n wynebu pob sefydliad. Rhaid ymgysylltu â thimau cyllid sefydliadau addysg uwch o leiaf unwaith bob chwarter.

Bydd pob sefydliad yn rhoi data a gwybodaeth i ni sy'n fasnachol sensitif ac yn gyfrinachol. Mae hyn yn allweddol er mwyn llywio ein dealltwriaeth, ac mae'n gwneud ein prosesau sicrwydd yn fwy trwyadl ac amserol. Mae'n hanfodol cynnal y cyfrinachedd hwn er mwyn sicrhau bod cyfathrebu agored a pharhaus rhyngom ni fel y rheoleiddiwr a'r sector.

Caiff gwaith monitro ariannol Medr ei wneud drwy gasglu a dadansoddi nifer o ffurflenni data blynyddol. Bydd Medr yn mynd ati'n rheolaidd i ychwanegu at y ffurflenni hyn a'u gosod yn eu cyd-destun drwy ymgysylltu'n unigol â thimau cyllid yr holl sefydliadau. Er nad yw'r un metrig unigol yn mesur cynaliadwyedd ariannol, byddwn yn monitro cyfres o ddangosyddion gan gynnwys hylifedd, perfformiad gweithredu, gweithgarwch cynhyrchu arian parod, cymarebau costau staff a hyblygrwydd cyfamod. Caiff y rhain eu hasesu yn eu crynswth, ochr yn ochr â chyd-destun sefydliadau, yn hytrach nag ar ffurf trothwyon penodedig.

Caiff fframwaith rheoleiddio newydd Medr ei gyflwyno o 1 Awst 2026 ymlaen. Bydd amrywiaeth o ofynion yn y fframwaith newydd, gan gynnwys amodau rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd ariannol, llywodraethu a rheoli. Mae rhagor o wybodaeth am y fframwaith newydd i'w gweld ar ein gwefan.

Mae pob prifysgol yng Nghymru yn elusen ymreolaethol sydd wedi'i chofrestru â'r Comisiwn Elusennau. Mae'r rheolau ar gyfer elusennau'n gosod dyletswydd ar gorff llywodraethu prifysgol, fel ymddiriedolwyr elusen, i reoli adnoddau'r sefydliad yn gyfrifol a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar yr hyn sy'n iawn ar gyfer cenhadaeth y brifysgol, gan ystyried y goblygiadau yn y tymor hwy. Mae'n ofynnol i sefydliadau hysbysu Medr yn brydlon os byddant yn darganfod unrhyw risgiau sylweddol i'w hyfywedd ariannol.

Crynodeb allweddol

Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru, yn gyffredin â gweddill y DU, yn gweithredu mewn amgylchedd ariannol eithriadol o heriol ar hyn o bryd.

O ganlyniad i ostyngiadau diweddar mewn cyfraddau recriwtio rhyngwladol a gafodd gryn sylw, ynghyd ag effaith chwyddiant uchel a ddwysaodd y sefyllfa, mae darparwyr wedi cynnal adolygiadau manwl o'u modelau gweithredu a'u blaenoriaethau strategol craidd. Mae nifer sylweddol o brifysgolion yng Nghymru wedi cyhoeddi mesurau torri costau, gan gynnwys cynlluniau diswyddo gwirfoddol, cau cyrsiau, a gweithgareddau ailstrwythuro eraill.

Barn Medr, yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol ac yn amodol ar gyflawni'r arbedion effeithiolrwydd arfaethedig yn llwyddiannus, yw nad yw'r un brifysgol yng Nghymru yn wynebu risg bod methiant ariannol afreolus ar fin digwydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gan nifer o brifysgolion weithgareddau trawsnewid sylweddol i'w rhoi ar waith er mwyn sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Yn yr adrannau isod, ceir crynodeb o'r ffactorau sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y sector.

Cyd-destun a chefndir y sector addysg uwch yn y DU

Yn sector prifysgolion y DU, heb gynnwys yr Alban sydd â model cyllido gwahanol, gwelwyd cynnydd mewn marchnadeiddio yn 2012 pan gyflwynwyd y ffi dysgu o £9,000 y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r sector wedi cadw llawer o weithgareddau sy'n anghydnaws â marchnadeiddio gwirioneddol:

- Myfyrwyr israddedig o'r DU yw'r brif ffrwd incwm o hyd. Cafodd y ffi dysgu i fyfyrwyr israddedig o'r DU sy'n astudio yng Nghymru ei chapio ar £9K o 2012/13 tan 2023/24. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynnydd blynyddol ar sail chwyddiant ar gyfer y cyfnod o 2024/25 i 2026/27.
- Mae gwaith ymchwil ac arloesi yn elfen greiddiol o hunaniaeth a diben addysg uwch. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi nodi bod gwaith ymchwil yn ysgogi twf economaidd. Mae sicrhau na fydd cyllid ar gyfer Ymchwil o Ansawdd i'r sector yng Nghymru yn mynd ymhellach ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU yn hollbwysig er mwyn cynnal capasiti ymchwil yng Nghymru drwy gefnogi sylfaen ymchwil sefydlog a darparu cyllid ar gyfer gwaith ymchwil cynnar i ddatblygu cysyniadau i gam sy'n addas ar gyfer denu cyllid gan gynghorau ymchwil a chyllidwyr eraill. Ni fwriedir i gyllid ar gyfer prosiectau ymchwil o ffynonellau cyhoeddus dalu'r costau llawn, a disgwylir cyfraniad o 20% gan y sefydliad. Mewn gwirionedd, cyfradd adennill gyffredinol y sector yn y DU yn 2023/24[3] oedd 67%, gan olygu bod angen cyllid mewnol o 33%. Mae'r gyfradd adennill hon yn cynnwys cyllid sylfaen ar gyfer Ymchwil o Ansawdd gan reoleiddwyr a chyllidwyr[4], sy'n awgrymu cyfraddau adennill is ar lefel prosiectau.
- Cenhadaeth ddinesig – mae disgwyliadau'r llywodraeth i brifysgolion yn cynnwys rôl ddinesig bwysig a phellgyrhaeddol a chydymffurfiaeth â pholisïau'r sector cyhoeddus. Mae llawer yn cynnal canolfannau celfyddydau, yn agor eu cyfleusterau, ac yn cefnogi prosiectau yn y gymuned.
- Disgwyliadau'r sector cyhoeddus – mae cyflogau'r sector yn y DU yn parhau i gael eu modelu ar drefniadau'r sector cyhoeddus gydag undebau llafur cadarn, codiadau cyflog blynyddol wedi'u hymgorffori, ac aelodaeth o gynlluniau pensiwn mawr â buddion wedi'u diffinio, gan gynnwys rhai ag

[3] TRAC data | Office for Students

[4] Medr, y Swyddfa Fyfyrwyr (OfS), Cyngor Cyllido'r Alban, Adran Addysg Gogledd Iwerddon

aelodaeth orfodol (er enghraifft y Cynllun Pensiwn Athrawon). Mae'r rheolaeth y gall sefydliadau unigol ei harfer dros y costau hyn yn gyfyngedig iawn. Mae prifysgolion yng Nghymru yn gyflogwyr cyflog byw cenedlaethol ac mae pob un ohonynt wedi cyhoeddi targedau sero net.

Hefyd, mae cyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drwy reoleiddwyr wedi aros yn gymharol wastad dros y blynyddoedd diwethaf. Mae chwyddiant wedi bod yn sylweddol dros y cyfnod rhwng 2012 a 2024, yn enwedig ar ôl y pandemig, ac mae sefydliadau wedi ariannu hyn yn gynyddol drwy arallgyfeirio i feysydd megis addysg drawswladol a denu mwy o fyfyrwyr rhyngwladol.

Mae geowleidyddiaeth a pholisïau mewnfudo diweddar Llywodraeth y DU wedi lleihau'r farchnad ryngwladol yn sylweddol. Arweiniodd hyn at ailstrwythuro ar raddfa eang er mwyn cysoni costau â'r ffrydiau incwm llai. Yn y tymor canolig, bydd angen i'r sector yn y DU barhau i reoli costau a hefyd adnabod a datblygu ffrydiau incwm newydd ar yr un pryd er mwyn lliniaru pwysau chwyddiant yn y dyfodol a lleihau'r angen i leihau costau ac ailstrwythuro'n barhaus. Bydd angen cyflawni hyn yng nghyd-destun ansicrwydd geowleidyddol parhaus, gan gynnwys pwysau gwleidyddol sylweddol ar fewnfudo, a lleihad demograffig yn nifer y bobl 18 oed yn y DU o 2030 ymlaen.

Ceir awydd o fewn Llywodraeth y DU i'r sector gydweithio ymhellach, a hynny er budd dysgwyr ac er mwyn lliniaru costau. Gan fod fframwaith addysg drydyddol newydd yn cael ei gyflwyno yng Nghymru, mae hyn hefyd yn amlwg ym mholisi Llywodraeth Cymru. Mae'r sector yn y DU yn anwadal ac yn heriol ar hyn o bryd, ac mae sefydliadau'n cymryd camau i ddiogelu arian parod er mwyn sicrhau hyblygrwydd i ymdrin â'r amgylchedd hwn. Felly, er mwyn cymryd unrhyw gamau sylweddol ym maes cydweithio, bydd angen ysgogiad ar ffurf cyllid strategol ychwanegol.

Perfformiad gweithredu sylfaenol

Cofnodwyd diffyg gweithredu sylfaenol o £(79.3)M yn y sector ar gyfer 2024/25, sef dirywiad o £24.1M ers 2023/24 sy'n adlewyrchu'r ffaith bod cryn dipyn o'r sector yn gweithredu diffygion a reolir sydd wedi'u cynllunio ac sydd am gyfnod penodol, gan wneud gwaith ailstrwythuro ar yr un pryd er mwyn lleihau'r sylfaen gostau yn unol â'r lleihad mewn incwm. Cofnododd pum sefydliad ddiffyg sylfaenol yn 2024/25. Mae'r sector yn rhagweld diffyg sylfaenol llai o £(9.5)M erbyn 2027/28, gyda phedwar sefydliad unigol mewn diffyg, a gwarged sector ac un diffyg unigol bach erbyn 2028/29. Mae'r trywydd yn adlewyrchu costau ailstrwythuro trosiannol yn hytrach na cholledion strwythurol parhaus.

Incwm

Mae rhagolygon incwm yn y sector yn bwyllog drwy fwriad, yn unol ag arweiniad Medr a chan adlewyrchu'r amgylchedd presennol yn sector addysg uwch y DU o gystadleuaeth gynyddol am fyfyrwyr ac anwadalrwydd mewn marchnadoedd rhyngwladol.

Rhagwelir y bydd incwm yn cynyddu o £1,894.2M yn 2024/25 i £1,966.3M erbyn 2027/28. Cynnydd ar sail chwyddiant mewn ffioedd dysgu sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r twf hwn.

Mae'r twf mewn niferoedd myfyrwyr yn fwy pwyllog, gan y bydd cyfanswm niferoedd myfyrwyr yn aros yn wastad a chan fod disgwyl i niferoedd myfyrwyr israddedig cartref a myfyrwyr ôl-raddedig rhyngwladol leihau. Mae hyn yn cydnabod yr amgylchedd cynyddol gystadleuol a'r heriau geowleidyddol parhaus, ac yn adlewyrchu'r lefelau recriwtio mwy diweddar a gyflawnwyd yn hytrach na'r twf a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Hyblygrwydd arian parod

Bu lleihad o £81.0M ym malansau arian parod y sector yn 2024/25 i £795.1M (gan gynnwys buddsoddiadau asedau cyfredol). Disgwylir lleihad pellach i £641.6M erbyn 2027/28. Mae rhywfaint o arian parod yn cael ei ddal cyn gwariant wedi'i glustnodi ar brosiectau cyfalaf yn ystod y cyfnod, felly disgwylir rhywfaint o leihad. Ariannu diffygion a reolir ym mhob rhan o'r sector sy'n gyfrifol am elfennau eraill o'r lleihad hwn. Mae sefydliadau'n parhau i gymryd camau rhagweithiol i gadw hyblygrwydd arian parod.

Ni chaiff arian parod ei ddal yn gyfartal ym mhob rhan o'r sector, gan fod tri sefydliad wedi dal tuag 85% o gyfanswm y sector drwy gydol y cyfnod.

Ystadau

Mae gwariant ar ystadau wedi bod yn gyfyngedig gan fod llawer o brosiectau wedi cael eu gohirio am nifer o flynyddoedd. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n buddsoddi cyn lleied â phosibl y tu hwnt i brosiectau a ariennir yn allanol a phrosiectau sy'n bwysig i'r busnes. Hefyd, mae'r gofynion yn sgil ôl-groniadau o waith cynnal a chadw a gwaith cynnal a chadw drwy gydol cylch oes yn sylweddol ac yn cynyddu. Mae sefydliadau wedi cyhoeddi targedau sero net y maent yn dyheu am eu cyrraedd, yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau ehangach. Bydd y rhain yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol fel arfer. Mae newidiadau mewn arferion gweithio ac addysgu a'r angen am adroddiadau mwy amserol ar berfformiad gweithredu yn arwain at ofynion cynyddol o ran gwella seilwaith digidol.

Benthyca

Mae lefelau benthyca'r sector yn dal yn uwch na chyfartaledd y sector yn y DU ond, gan mai bondiau cyhoeddus â chymorth asedau neu gonsesiynau gwasanaeth i'w had-dalu'n llawn ar ôl mwy na 10 mlynedd yw 66.4% o'r ddyled, a chan fod 81.0% o'r ddyled ar gyfraddau sefydlog, nid benthyca risg uchel yw'r rhan fwyaf o'r benthyca. Mae'r diffygion presennol yn rhoi pwysau ar hyblygrwydd cyfamod banciau, ac mae rhai sefydliadau'n cael eu hatal rhag benthyca ymhellach, hyd yn oed ar gyfraddau cyfalaf trafodiadol ariannol ffafriol i fynd i'r afael â phrosiectau cyfalaf sero net. Bu cynnydd yn y defnydd o gyfleusterau credyd cylchol i gefnogi hyblygrwydd arian parod cyfalaf gweithio.

Mae'r sector yn rhagweld ychydig bach o fenthyca pellach i dalu am well cyfleusterau i gefnogi gweithgarwch cyflwyno ar gyfer myfyrwyr.

Cynhyrchu arian parod gweithredu net

Mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Mae angen i sefydliadau gynhyrchu digon o arian parod o weithgareddau parhaus i gynnal dyledion a buddsoddi mewn seilwaith a gweithgareddau yn y dyfodol. All-lif (diffyg arian parod) o £(85.6)M oedd y sefyllfa o ran cynhyrchu arian parod ar ôl cynnal dyledion yn 2024/25, o ganlyniad i all-lifoedd mewn chwe sefydliad. Mae hyn yn anghynaliadwy yn y tymor canolig, a dyma'r rheswm dros y rhaglenni ailstrwythuro presennol. Mae'r sector yn rhagweld all-lif llai pellach yn 2025/26 cyn dychwelyd i fewnlifoedd.

Mae sefyllfa ariannol y sector yn hylifol iawn yn yr amgylchedd presennol ac mae rhagdybiaethau'r rhagolygon yn cael eu diweddaru'n gyson wrth i'r amgylchiadau newid. Canlyniadau ariannol hanesyddol yw'r rhai sydd wedi'u cyhoeddi a dim ond fel ciplun o adeg benodol y gellir eu trin. Nid yw rhagolygon yn gwarantu enillion mewn perfformiad yn y dyfodol, ac mae'n hynod debygol y byddant yn newid dros y cyfnod cynllunio.

Risgiau a mesurau lliniaru

Recriwtio myfyrwyr o'r DU a ffioedd dysgu

Mae marchnad myfyrwyr y DU yn mynd yn fwyfwy cystadleuol. Mae ymddygiadau myfyrwyr yn newid ac mae ymddygiadau sefydliadau sy'n cystadlu yn mynd yn fwyfwy ffyrnig, sy'n ei gwneud hi'n anodd llunio rhagolygon cywir. Nid yw tueddiadau recriwtio blynyddoedd blaenorol yn ddangosyddion da ar gyfer y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd y dyfodol mwyach. Mae'r cyfnod hir o uchafswm ffi dysgu sefydlog heb gynnydd ar sail chwyddiant wedi gwaethygu perfformiad ariannol a gwydnwch y sector. Dylai'r cyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch cynyddu ffioedd wella hyn mewn blynyddoedd i ddod. Bydd llywodraethau'r dyfodol yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn ag amseriad codiadau pellach i'r cap ar ffioedd dysgu, neu unrhyw newidiadau strwythurol pellach i'r model cyllido addysg uwch, yn unol â'u blaenoriaethau a'u hamgylchiadau eu hunain. Yn anochel, mae cyflymder cyflwyno'r codiadau o gymharu â Lloegr yn effeithio ar fuddsoddiadau a chystadleurwydd cymharol sefydliadau yng Nghymru. Mae'n debygol y byddai cadw'r model presennol heb godiadau parhaus a heb ddatblygu ffrydiau incwm amrywiol yn galw am gamau lliniaru pellach y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes wedi'u hadlewyrchu yn y rhagolygon, er mwyn rheoli chwyddiant costau parhaus. Mae gostyngiad graddol yng nghanran y myfyrwyr 18-20 oed sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n mynychu addysg uwch, a lleihad demograffig yn nifer y bobl 18 oed yn y DU o 2030 ymlaen yn ychwanegu pwysau pellach.

Mae sefydliadau'n adolygu ac yn adnewyddu portffolios cyrsiau; gan ehangu'r defnydd o dechnoleg ddigidol; gwella gweithgarwch marchnata; a chynnal a gwella cymorth i fyfyrwyr, profiad myfyrwyr a chyfraddau cadw myfyrwyr fel adnoddau pwysig er mwyn cynnal cyfran o'r farchnad a'i chynyddu o bosibl.

Bydd Medr yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ar yr heriau sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd.

Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI)

Mae sefydliadau wrthi'n asesu effaith y cynnig i Fisâu a Mewnfudo y DU gyflwyno gofynion llymach yn ei Asesiad Cydymffurfiaeth Sylfaenol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ar hyn o bryd. Y senario waethaf posibl fyddai atal a dirymu trwydded noddwr myfyrwyr sefydliad, a allai olygu na fyddai gan y sefydliad hawl i recriwtio myfyrwyr rhyngwladol mwyach.

Mae sefydliadau'n monitro eu perfformiad ar lefel (domisiliau) fanwl ac yn rhoi polisïau sy'n berthnasol i ddomisiliau penodol ar waith lle y tybir bod hynny'n angenrheidiol. Mae hyn yn ychwanegu her bellach at waith cynllunio ariannol.

Mae Medr yn gweithio gyda'r sefydliadau i ddeall pa mor agored yw pob sefydliad unigol i'r risg hon a sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw risg bosibl.

Ailstrwythuro a rheoli costau'n barhaus

Mae cyflawni rhaglenni trawsnewid parhaus yn unol â'r amserlen fwriadedig yn hollbwysig er mwyn i sefydliadau wireddu eu rhagolygon a dychwelyd i gynaliadwyedd ariannol. Bydd yr angen i reoli costau'n barhaus yn parhau fel bod modd i gostau addasu yn unol â newidiadau mewn incwm (mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr yn bennaf). Mae'r sector yn tynnu sylw arbennig at ba mor heriol yw rheoli costau staff, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol, cyfleustodau a thanysgrifiadau a thrwyddedau seilwaith digidol.

Mae sefydliadau'n cadw golwg ar gynnydd o ran cyflawni cynlluniau i sicrhau arbedion ac adrodd i'w cyrff llywodraethu ac wedyn i Medr. Bydd angen i sefydliadau fonitro perfformiad yn erbyn cyllidebau ar lefel fanwl a bod yn atebol amdano, gan adolygu modelau gweithredu'n aml a'u hailasesu yn erbyn blaenoriaethau strategol fel y bo angen wrth i'r amgylchiadau ddatblygu. Bydd rheolaethau parhaus mewn meysydd fel rhestrau swyddi gwag, rheoli gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau, gohirio gwariant cyfalaf ac adolygu a gwella'r defnydd a wneir o ystadau yn parhau i fod yn ofynnol.

Mae Medr yn monitro cynnydd o ran cyflawni hyn fel rhan o weithgarwch ymgysylltu rheolaidd.

Ceir risg bellach bod lleihau costau'n erydu'r gallu i gyflawni mewn rhai meysydd. Gall hyn arwain at absenoldeb darpariaeth ('cold spots[5]') mewn pynciau megis ieithoedd tramor modern, a bydd yn effeithio ar feysydd sy'n arbennig o sensitif i golli niferoedd staff, megis darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac agweddau ar gapasiti ymchwil.

Bydd angen i sefydliadau unigol fonitro a rheoli'r risgiau hyn.

Bydd Medr yn parhau i oruchwylio darpariaeth addysg uwch yng Nghymru er mwyn llywio polisi.

[5] Medr/2026/04: Pynciau astudio – y galw am feysydd pwnc, eu darpariaeth a'u dosbarthiad ar draws addysg uwch yng Nghymru

Arian parod

Mae pwysau ar lif arian parod a hyblygrwydd yn galw am gynnydd mewn rheoli trysorfeydd a mwy o fuddsoddiad mewn systemau er mwyn darparu gwybodaeth amserol. Bydd mewnlifoedd arian parod yn amrywio'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol a bydd hyblygrwydd arian parod isel yn arwain at yr angen i reoli derbyniadau a thaliadau arian parod yn agos iawn. Mae angen hyblygrwydd arian parod er mwyn cyflawni strategaethau sy'n dibynnu ar flaenoriaethu gwariant ar ystadau, seilwaith, capasiti ymchwil a blaenoriaethau sefydliadol eraill.

Heb ddigon o hyblygrwydd arian parod, bydd gan sefydliadau lai o amser i roi newid ar waith yn strategol lle bo angen.

Bydd angen i sefydliadau barhau i fonitro arian parod yn gadarn yn erbyn cyfamodau benthyca, metrigau perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt gyda'r corff llywodraethu a gwariant yr ymrwymwyd iddo ynghyd â pholisïau a phrosesau clir mewn perthynas â blaenoriaethau strategol ac awdurdodi gwariant.

Mae lefelau arian parod ac unrhyw bwysau a ragwelir yn rhan o agendâu sefydlog yn ystod gweithgarwch rheolaidd Medr i ymgysylltu'n gyfrinachol â phob sefydliad.

Ystadau

Mae gan y sector her sylweddol o ran ôl-groniadau o waith cynnal a chadw.

Mae sefydliadau wedi ymrwymo'n gyhoeddus i gefnogi targedau sero net y llywodraeth. Ar lefel y DU, amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £37.1BN[6] i'r sector.

Mae'r rhan fwyaf o waith datblygu ystadau yn y sector yn cael ei wneud drwy gyllid allanol ar hyn o bryd gan fod arian parod yn cael ei ddiogelu. Mae gan rai sefydliadau hyblygrwydd cyfyngedig mewn cyfamodau banc, sy'n anghymell y defnydd o gyfalaf trafodiadau ariannol Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes modd i sefydliadau addysg uwch gael cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru megis cyllid cymunedau dysgu cynaliadwy a chyllid model buddsoddi cydfuddiannol sydd ar gael i'r sector addysg bellach. Mae rhai sefydliadau'n cynnal prosiectau drwy gynlluniau twf rhanbarthol. Mae'r amserlen hir ar gyfer cymeradwyo'r rhain yn arwain at chwyddiant adeiladu, sy'n golygu y bydd sefydliadau yna naill ai'n lleihau cwmpas prosiectau neu'n eu hariannu'n rhannol drwy ddulliau eraill. Gall cyllid grant mewn ôl-daliadau gynyddu pwysau o ran rheoli trysorfeydd am fod rhaid i'r costau gael eu talu cyn i'r cyllid grant ddod i law.

Mae sefydliadau'n parhau i feincnodi ac adolygu strategaethau optimeiddio gofod a strategaethau cyfalaf. Bydd prosiectau cyfalaf yn destun craffu dwys yn erbyn blaenoriaethau strategol.

Mae Medr yn monitro cynnydd fel rhan o weithgarwch ymgysylltu rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys trafod ffynonellau cyllid ac unrhyw bwysau posibl o ran rheoli trysorfeydd.

[6] The Cost of Net Zero Report and Calculator | EAUC

Ymchwil ac arloesi

Mae lleihad mewn incwm o ffioedd dysgu myfyrwyr rhyngwladol yn ychwanegu pwysau sylweddol ar gapasiti ymchwil gan fod y ffioedd hyn wedi cymorthdalu costau gwaith ymchwil yn y gorffennol. Mae adnoddau eraill sefydliadau hefyd dan straen ar adeg pan fydd llywodraethau'n troi at waith ymchwil ac arloesi er mwyn ysgogi twf economaidd. Ni chaiff grantiau cystadleuol gan gyllidwyr cyhoeddus ar gyfer prosiectau penodol eu hariannu ar gyfer y costau llawn, a hynny'n fwriadol er mwyn osgoi dull trafodiadol a chontractiol a allai amharu ar ryddid academaidd, ond, gan fod adnoddau'n gyfyngedig, mae angen gwneud dewisiadau ynglŷn â pha brosiectau y gall sefydliadau eu cefnogi. Ceir risg y bydd capasiti ymchwil yn mynd yn fwy cyfyng ei ffocws, a all wella ansawdd gan arwain at fwy o lwyddiant o ran sicrhau incwm grant, ond sydd hefyd yn golygu y bydd yn rhaid cyfaddawdu o ran cynnal sylfaen ymchwil eang sy'n gallu ymateb i heriau anhysbys yn y dyfodol ac sy'n sail ar gyfer profiad dysgu o ansawdd da a gaiff ei lywio gan waith ymchwil. Mae'n bosibl y bydd llai o gyfleoedd i ymchwilwyr gyrfa gynnar wrth i sefydliadau flaenoriaethu ymchwilwyr sydd wedi gwneud gwaith da yn y gorffennol, gan effeithio ar gyflenwad y dyfodol.

Mae meysydd cryfder gwaith ymchwil yng Nghymru yn rhychwantu'r sectorau twf allweddol a nodir yn Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, ond mae wedi cymryd amser i ddatblygu'r capasiti hwn ar sail buddsoddiad parhaus. Felly, pan fydd wedi'i golli, bydd yn anodd ei ailddatblygu wrth i brifysgolion eraill geisio manteisio ar fylchau a chreu mantais gystadleuol. Bydd cydweithio'n allweddol er mwyn datblygu'r màs critigol sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau grantiau mawr, ac mae'n bosibl y bydd yn fodd i harneisio cryfderau sy'n ategu ei gilydd, ond bydd angen buddsoddiad er mwyn creu partneriaethau cadarn.

Mae gan Medr rôl i fonitro capasiti ymchwil yng Nghymru a helpu darparwyr i sicrhau mwy o incwm o ffynonellau cystadleuol, gan gynnwys Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI), Llywodraeth y DU, rhaglen Horizon Ewrop, ac elusennau. Bydd cydweithio'n hollbwysig, gan adeiladu ar waith Rhwydwaith Arloesedd Cymru. Mae Medr yn cefnogi gwaith gan UKRI i archwilio arferion gorau wrth bennu costau cynigion mewn modd cynaliadwy, ac mae gan ddarparwyr rôl i'w chyflawni o ran ystyried y datblygiadau hyn.

Mae gan Medr rôl i gefnogi capasiti ymchwil ac arloesi sylfaenol yn y sector drwy gyllid Ymchwil o Ansawdd a Chronfa Arloesi Ymchwil Cymru.

Effaith economaidd a chymdeithasol

Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn gyflogwyr lleol mawr ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn sefydliadau angori yn eu rhanbarthau. Mae'n debygol y bydd effaith ehangach y gwaith helaeth o ailstrwythuro a rheoli costau'n barhaus ar y rhanbarthau hyn yn sylweddol.

Gall pwysau ariannol arwain at leihad yn nifer y blaenoriaethau strategol, a lleihad posibl yn nifer y gweithgareddau ehangach i ymgysylltu â'r gymuned a chyflawni cenadaethau dinesig.

Mae pwysau economaidd ehangach mewn llawer o sectorau yng Nghymru (a'r DU) yn rhoi rhagor o bwysau ar gyllid addysg uwch i ddarparwyr gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan arwain at risg y bydd y cyllid yn aros yn wastad, yn methu â chynyddu yn unol â chwyddiant, neu hyd yn oed yn lleihau.

Mae prifysgolion yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am eu heffaith economaidd[7] i hysbysu'r cyhoedd a swyddogion a gwleidyddion Llywodraeth Cymru. Mae sefydliadau'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr i ddeall anghenion o ran sgiliau ac ymateb iddynt, er mwyn sicrhau gweithlu cymwysedig a chynhyrchiol.

Mae gan Medr rôl i annog cydweithio (o fewn cyfyngiadau presennol gofynion yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) er mwyn gwella cynaliadwyedd ariannol a chydlyniaeth ac effaith economaidd ranbarthol.

Medr

Mae rhoi fframwaith rheoleiddio newydd ar waith yn rhoi pwysau ychwanegol ar sefydliadau mewn cyfnod o straen ar gapasiti.

Mae Medr yn cydnabod y pwysau hyn ac wedi ceisio eu lliniaru lle bo modd drwy gydol y broses.

Mae gweithio o fewn sector addysg drydyddol sydd â mwy o awydd i gydweithio yn gyfle ac yn bwysau. Mae'n arwain at gyfleoedd helaeth i ddarparwyr ac i ddysgwyr. Bydd Medr yn parhau i weithio gyda'r sector ac mae'r ymgysylltu hyd yma wedi bod yn galonogol.

[7] Prifysgolion Cymru yn hybu twf a chynhyrchiant ledled y DU | Prifysgolion Cymru; Ein heffaith economaidd a chymdeithasol | Prifysgol Caerdydd; Effaith gymdeithasol ac economaidd | Prifysgol De Cymru

Rhagolwg tymor canolig y sector (ledled y DU)

Mae'r sector addysg uwch yn y DU yn gweithredu dan gyfuniad o farchnadoedd incwm presennol sy'n gystadleuol iawn, a chwyddiant costau parhaus. Ar hyn o bryd, nid yw Medr, na'r sector addysg uwch yn ehangach yng Nghymru, yn ymwybodol o awydd ar lefel Llywodraeth y DU i ddiwygio'r model cyllido yn ei hanfod. Felly, mae sefydliadau'n datblygu ffrydiau incwm amrywiol newydd megis trefniadau is-gontractio a threfniadau partneriaeth, gan gynnwys yn rhyngwladol, i ddelio â phwysau costau chwyddiant parhaus. Mae risg gynhenid yn gysylltiedig ag arallgyfeirio ymhellach i'r meysydd hyn, sy'n gymhleth ac yn gofyn am ddiwydrwydd dyladwy priodol ymlaen llaw a rheolaethau parhaus cadarn i liniaru niwed i enw da a/neu golled ariannol, yn arbennig gan mai dyna yw nod y sector cyfan yn y DU ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni hyn yn llwyddiannus, bydd angen talu costau ymlaen llaw, a bydd yn cymryd amser i wireddu budd ariannol. Byddai'r risg na chaiff y prosiectau hyn eu cyflawni'n llwyddiannus yn arwain at leihad pellach mewn costau i sefydliadau. O ystyried graddfa'r mesurau lleihau costau a staff y mae rhai sefydliadau eisoes wedi'u rhoi ar waith, mae'n bosibl y bydd hyn yn galw am newidiadau sylfaenol i fodelau cyflawni.

Bydd angen i sefydliadau ddilyn prosesau diwydrwydd dyladwy cadarn wrth sefydlu darpariaethau newydd o'r fath a chadw golwg ofalus ar gynnydd yn erbyn rhagolygon er mwyn gallu gweld yn gynnar os na fydd ffrydiau incwm yn cael eu gwireddu.

Bydd Medr yn parhau i fonitro datblygiadau yn y maes hwn.

Mesurau lliniaru – crynodeb

Er bod llawer o'r heriau ariannol eang presennol yn gyffredin i'r sector cyfan yng Nghymru, ac, yn wir, i'r sector ehangach yn y DU, byddant yn effeithio ar bob sefydliad yn wahanol. Felly, bydd gan bob sefydliad ei amrywiaeth bwrpasol ei hun o fesurau lliniaru.

Bydd rheolaethau cadarn dros berfformiad a dangosyddion ariannol yn sicrhau bod sefydliadau'n cael rhybudd cynnar ynghylch risgiau posibl. Mae'n ofynnol i sefydliadau fonitro llifoedd arian parod y dyfodol a chydymffurfiaeth â chyfamodau, ac adrodd ar y rhain yn rheolaidd i'w cyrff llywodraethu.

Mae sefydliadau'n parhau i dracio cynnydd o ran targedau ar gyfer arbedion, ac adrodd ar y cynnydd hwnnw, ac adolygu eu modelau gweithredu'n rheolaidd ac yn barhaus er mwyn gweld a oes angen cymryd camau pellach.

Mae sefydliadau'n ymwybodol nad yw arbed costau'n barhaus yn gynaliadwy, a bod terfyn ar yr arbedion effeithlonrwydd sydd ar gael heb effeithio ar y gallu i gyflawni. Hefyd, mae angen i sefydliadau wella a datblygu ffrydiau incwm. Gallai hyn fod drwy fanteisio i'r eithaf ar y ffrydiau incwm sydd eisoes yn bodoli, a thrwy ddatblygu marchnadoedd newydd, megis marchnadoedd a phartneriaethau tramor, gan gynnwys addysg drawswladol, ac ehangu darpariaeth ddigidol. Fel arall, byddai angen gwneud newidiadau mwy radical i fodel busnes addysg uwch, a gall hynny gael effaith sylfaenol ar natur y sector yn y DU.

Perfformiad ariannol

Mae ffigur 1 isod yn rhoi crynodeb o wybodaeth ariannol allweddol ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru a ddaw o gyfanrediad o ffurflenni cofnodi cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a rhagolygon sefydliadau a gyflwynir yn gyfrinachol i Medr.

Fel yn achos pob dadansoddiad cyfanredol, mae'r sefyllfa ar lefel y sector yn cuddio amrywiadau sylweddol rhwng sefydliadau ac ni ddylid ei dehongli fel dangosydd ar gyfer sefyllfa ariannol unrhyw ddarparwr unigol.

Ffigur 1: Data ariannol cyfanredol (£M)

	2022/23 Gwirioneddol	2023/24 Gwirioneddol	2024/25 Gwirioneddol	2025/26 Rhagolwg 1	2026/27 Rhagolwg 2	2027/28 Rhagolwg 3
Cyfanswm yr incwm	1,980.1	1,980.1	1,894.2	1,873.1	1,928.8	1,966.3
Prif warged / (diffyg) gweithredu	95.7	303.0	(123.6)	(109.3)	(25.6)	(11.3)
Gwarged / (diffyg) gweithredu heb gynnwys addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod[8] [9]	43.5	(72.6)	(128.1)	(107.1)	(23.4)	(9.1)
Gwarged / (diffyg) gweithredu sylfaenol[10] [11]	45.0	(55.2)	(79.3)	(96.2)	(22.3)	(9.5)
Mewnlif / (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu	130.9	(14.0)	(22.5)	6.1	86.7	105.2
Cost cynnal dyledion	(62.1)	(58.5)	(63.1)	(53.6)	(62.7)	(59.5)
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu ar ôl cynnal dyledion	68.8	(72.5)	(85.6)	(47.5)	24.0	45.7
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	335.3	399.2	347.0	234.2	229.0	252.3
Buddsoddiadau asedau cyfredol	659.1	476.9	448.1	412.2	395.0	389.2
Benthyca allanol	899.2	892.1	902.2	911.1	882.2	855.4
Gwariant cyfalaf	162.0	174.4	137.9	192.9	110.1	67.5

[8] Addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod i gynlluniau â buddion wedi'u diffinio sy'n effeithio ar gostau staff ac ar y llog sy'n daladwy

[9] Gwnaeth ffigurau cyfatebol a gyhoeddwyd yn flaenorol ychwanegu addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod yn ôl mewn costau staff, ond nid mewn llog sy'n daladwy. Y ffigurau cyfatebol a gyhoeddwyd yn flaenorol yw 2022/23 £22.9M (gan gynnwys £21.3M mewn addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod); 2023/24 £(76.9)M (gan gynnwys £4.3M mewn addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod)

[10] Diffinnir 'sylfaenol' fel ffigur nad yw'n cynnwys addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod na chostau ailstrwythuro sylfaenol.

[11] Gwnaeth ffigurau cyfatebol a gyhoeddwyd yn flaenorol ychwanegu addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod yn ôl mewn costau staff, ond nid mewn llog sy'n daladwy. Y ffigurau cyfatebol a gyhoeddwyd yn flaenorol yw 2022/23 £23.7M (gan gynnwys £21.3M mewn addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod); 2023/24 £(57.2)M (gan gynnwys £4.3M mewn addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod)

Fel % o gyfanswm yr incwm	2022/23 Gwirioneddol	2023/24 Gwirioneddol	2024/25 Gwirioneddol	2025/26 Rhagolwg 1	2026/27 Rhagolwg 2	2027/28 Rhagolwg 3
Gwarged / (diffyg) gweithredu heb gynnwys addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod	2.2%	(3.7%)	(6.8%)	(5.7%)	(1.2%)	(0.5%)
Gwarged / (diffyg) sylfaenol	2.3%	(2.8%)	(4.2%)	(5.1%)	(1.2%)	(0.5%)
Costau staff sylfaenol	52.9%	56.0%	58.5%	58.7%	56.3%	55.9%
Gwariant gweithredu arall	35.9%	37.2%	35.9%	36.7%	35.8%	35.8%
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu	6.6%	(0.7%)	(1.2%)	0.3%	4.5%	5.4%
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu ar ôl cynnal dyledion	3.5%	(3.7%)	(4.5%)	(2.5%)	1.2%	2.3%
Benthyca allanol	45.4%	45.1%	47.6%	48.6%	45.7%	43.5%
Metrigau eraill						
Hylifedd net fel nifer diwrnodau gwariant [12]	203	170	159	130	126	128
Diwrnodau hylifedd net gan gynnwys cyfleusterau credyd cylchol nas tynnwyd i lawr	204	192	183	159	156	158

Ar lefel gyfanredol, cofnododd y sector ostyngiad mewn lefelau incwm yn 2024/25. Arweiniodd hyn at ddiffyg gweithredu mwy ac anghynaliadwy a lefel cynhyrchu arian parod sylfaenol is, sy'n adlewyrchu penderfyniad nifer o sefydliadau i weithredu diffygion a reolir sydd am gyfnod penodol er mwyn caniatáu amser ar gyfer ailstrwythuro sylfeini costau mewn modd strategol a'r cyfnod ymgynghori sy'n ofynnol. Gwnaeth arian parod yn y sector hefyd leihau wrth i ddiffygion a reolir gael eu hariannu er mwyn caniatáu amser ar gyfer gwaith ailstrwythuro wedi'i gynllunio. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ailstrwythuro helaeth sy'n digwydd ledled Cymru ac yn ehangach yn y sector ledled y DU ar hyn o bryd.

Mae'r rhagolygon incwm yn bwyllog, ond nid yn rhy bwyllog, gan daro cydbwysedd rhwng yr her sy'n gysylltiedig â thyfu ffrydiau incwm presennol a chanfod ffynonellau newydd gan gydnabod bod angen i incwm dyfu er mwyn lliniaru pwysau chwyddiant parhaus ar gostau. Gellir gweld effaith ailstrwythuro yn y lleihad yn y diffyg sylfaenol ond, ar lefel gyfanredol, nid yw'r sector wedi dychwelyd i warged erbyn 2027/28, er bod rhywfaint o dwf mewn incwm wedi cael ei gydnabod. Rhagwelir y bydd y sector cyfan yn dychwelyd i warged yn 2028/29.

O 2026/27 ymlaen, rhagwelir y bydd perfformiad yn sefydlogi, wrth i'r arian parod gweithredu a gynhyrchir fynd tuag at gostau cynnal dyledion, ond bydd digon o hyblygrwydd ar gyfer mewnfuddsoddiad o hyd. Ni ragwelir y bydd yr holl wariant cyfalaf wedi'i gynllunio, ar lefelau is, yn cael ei ariannu drwy gynhyrchu arian parod tan 2027/28.

[12] Mae hylifedd net yn seiliedig ar gostau arian parod sylfaenol (gwariant heb gynnwys dibrisiant, addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod (mewn costau staff a llog sy'n daladwy) a chostau ailstrwythuro sylfaenol). Ni wnaeth ffigurau cyfatebol a gyhoeddwyd yn flaenorol addasu ar gyfer addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod mewn llog sy'n daladwy. Y ffigurau cyfatebol a gyhoeddwyd yn flaenorol yw 2022/23: 201 diwrnod; 2023/24: 192 diwrnod.

Incwm

Mae ffigur 2 yn nodi incwm y sector fesul ffynhonnell, gan nodi'r incwm gwirioneddol ar gyfer y pedair blynedd hyd at 2024/25 a rhagolygon tan 2027/28.

Caiff prifysgolion yng Nghymru incwm drwy ffioedd dysgu (myfyrwyr y DU, neu fyfyrwyr 'cartref', a myfyrwyr rhyngwladol) a chontractau addysg; cyllid gan gyrff cyllido (Medr yn bennaf) ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach (mewn senarios grŵp); gweithgareddau ymchwil; incwm arall, gan gynnwys preswylfeydd ac arlwyo, incwm masnachol, rhywfaint o incwm o addysg drawswladol a grantiau; incwm o fuddsoddiadau; a rhoddion a gwaddolion.

Ffigur 2: Ffynonellau incwm (£M)



Bu lleihad yng nghyfanswm yr incwm yn 2024/25 i £1,894.2M, sef lleihad o £85.9M o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rhagwelir y bydd yr incwm yn cynyddu i £1,966.3M erbyn 2027/28 (cynnydd o 3.8%). Bydd hyn yn dal yn is na chyfanswm yr incwm a gofnodwyd yn 2022/23, sef £1,980.1M.

Incwm o ffioedd dysgu

Ffioedd dysgu oedd y ffynhonnell fwyaf o incwm o hyd, gan gyfrif am 55.1% o gyfanswm yr incwm yn 2024/25, a rhagwelir y bydd yn cynyddu i 56.6% erbyn 2027/28 (ffigur 2).

Ffigur 3: Cyfanswm niferoedd myfyrwyr cyfwerth â pherson llawn (CPLI)[13]



[13] O ragolygon cyfrinachol myfyrwyr CPLI a gyflwynwyd

Mae incwm o ffioedd dysgu myfyrwyr cartref[14] wedi cynyddu'n raddol a rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau, gan gynyddu 1.9% erbyn 2027/28. Mewn cyferbyniad â hynny, rhagwelir y bydd cyfanswm niferoedd myfyrwyr cyfwerth â pherson llawn (CPLl) (ffigur 3) yn lleihau 1.1% dros yr un cyfnod. Gan mai israddedigion amser llawn yw 89.1% o'r myfyrwyr cartref sy'n talu ffioedd dysgu, mae hyn yn arwydd mai cynnydd yn yr uchafswm ffi i israddedigion cartref a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na thwf mewn niferoedd myfyrwyr, sy'n bennaf cyfrifol am y twf. Nid yw'r codiadau hyn yn gwrthbwyso cynnydd ar sail chwyddiant mewn costau cyflawni yn llawn. Er na chaiff y cynnydd ar sail chwyddiant mewn ffioedd ei gydnabod yn llawn ym mlynyddoedd y rhagolygon, mae'n amlwg y rhagwelir y bydd niferoedd myfyrwyr yn aros yn gymharol wastad, ac mae'r sector yn cydnabod cynnydd mewn cystadleuaeth am fyfyrwyr cartref.

Ar lefel ranbarthol yn y DU, mae'r sector yng Nghymru wedi gweld lleihad graddol yn nifer y myfyrwyr o Gymru a dderbynnir, gyda rhywfaint o welliant yn 2024/25. Mae ffigur 4 yn dangos bod nifer y myfyrwyr o Gymru wedi bod yn lleihau o ran nifer y myfyrwyr ifanc sy'n mynd i'r brifysgol ac o ran eu cyfran o fewn prifysgolion yng Nghymru[15]. Rhaid i brifysgolion yng Nghymru ddenu a recriwtio myfyrwyr yn llwyddiannus, ac nid dim ond myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, ond myfyrwyr o bob cwr o'r DU ac yn rhyngwladol er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol ar eu lefel ddarpariaeth bresennol.

Ffigur 4: **Myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru sy'n cofrestru â phrifysgolion yng Nghymru**[16] [17]



Cynyddodd incwm o ffioedd dysgu myfyrwyr rhyngwladol[18], nad ydynt wedi'u capio, yn gadarn hyd at 2023/24 ond, yn unol â gweddill y DU, maent wedi lleihau wedi hynny, a thybir bod hynny'n bennaf o ganlyniad i gyfyngiadau ar fisâu dibynyddion o fis Ionawr 2024 ymlaen. Mae'r farchnad hon yn dangos rhai arwyddion o sefydlogi ac mae'r sector yn rhagweld adferiad rhannol o dwf o 18.7% mewn incwm dros gyfnod y rhagolwg o 2024/25 ymlaen. Unwaith eto, drwy gynnydd mewn ffioedd y bydd hyn yn bennaf. Fel y gwelir yn ffigur 3, rhagwelir y bydd nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru yn lleihau 1.4% o 2024/25 tan 2027/28, gan gydnabod

[14] Diffinnir myfyrwyr 'cartref' fel myfyrwyr sydd â'u domisil yn y DU. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr cymwys o'r UE. Defnyddir y ddau derm yn gyfnewidiol yn yr adroddiad hwn.
[15] Am ragor o wybodaeth am gyfranogiad myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru mewn AU, gweler Sta/Medr/05/2025: Mesur Cyfranogiad Cychwynnol mewn Addysg Uwch Cymru: 2016/17 i 2022/23
[16] Myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru ac sy'n astudio'n rhan-amser yn y Brifysgol Agored yw'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr sy'n cael darpariaeth addysg uwch arall
[17] Mae data agored ar ddomisil myfyrwyr ar gael yn HE Student Data | HESA
[18] Myfyrwyr sy'n dod i'r DU i astudio yw myfyrwyr rhyngwladol, yn wahanol i addysg drawswladol lle y bydd myfyrwyr yn astudio ar gampysau mewn gwledydd tramor.

risgiau geowleidyddol yn y DU ac yn nomisiliau cartref myfyrwyr, a chynnydd mewn cystadleuaeth o rannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol.

Mae ffigur 5 yn dangos sut mae proffil y myfyrwyr rhyngwladol a dderbynnir i astudio mewn sefydliadau yng Nghymru wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, yn seiliedig ar angen i arallgyfeirio er mwyn cynyddu niferoedd myfyrwyr a chynhyrchu ffrydiau incwm newydd i liniaru'r ffaith bod israddedigion cartref yn brif ffynhonnell incwm sefydlog lle roedd ffioedd dysgu wedi'u capio heb ddim cynnydd ar sail chwyddiant o 2012/13 tan 2024/25, a sylfaen gostau seiliedig ar chwyddiant. Nid yw myfyrwyr rhyngwladol yn nodwedd newydd mewn addysg uwch yn y DU. Mae sefydliadau'n rhoi gwybod am fanteision naws mwy byd-eang ar y campws a diwylliant byd-eang fel rhan o'r profiad myfyrwyr. Yn draddodiadol, mae sefydliadau sy'n gwneud llawer o waith ymchwil wedi croes-gymorthdalu gwaith ymchwil drwy ddenu myfyrwyr rhyngwladol ar lefelau ffioedd uwch. Mae'r twf diweddar mewn recriwtio wedi bod i farchnadoedd ehangach gan groestoriad ehangach o'r sector. Cynnydd yn nifer y myfyrwyr ôl-raddedig a dderbynnir sydd wedi bod yn gyfrifol am lawer o'r twf. Cyrsiau blwyddyn yw cyrsiau ôl-raddedig fel arfer, felly nid yw hyn yn rhoi'r un lefel o sicrwydd incwm ar gyfer cynllunio strategol ag a geir gan ffioedd cyrsiau gradd tair blynedd, ac mae'n golygu bod sefydliadau'n agored i risg uwch o ran ffrydiau incwm yn y dyfodol. Mae sensitifrwydd prisiau'n ffactor allweddol yn y marchnadoedd byd-eang newydd cynyddol gystadleuol hyn. Mae recriwtio'n rhyngwladol yn golygu bod sefydliadau'n agored i effeithiau amodau geowleidyddol, gan gynnwys ansicrwydd ynglŷn â pholisi mewnfudo'r DU, cysylltiadau gwleidyddol ehangach ac amodau economaidd yn rhyngwladol. Un dull o reoli risgiau geowleidyddol yw amrywiaethu prosesau recriwtio myfyrwyr rhyngwladol. Fodd bynnag, mae gan hyn ei heriau ei hun gan fod angen i anghenion cymorth a seilwaith cynyddol yr amrywiaeth ehangach hon yn y boblogaeth myfyrwyr gael eu diwallu. Mae ffigur 5 yn dangos yn glir y lleihad mwy diweddar o gymharu â'r proffiliau twf blaenorol a welwyd ym mhob rhan o'r sector yn y DU, sy'n ategu'r risgiau hyn yn bendant.

Ffigur 5: Prif ddomisiliau myfyrwyr rhyngwladol (CPLI [19]) sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru[20]



Caiff addysg drawswladol, partneriaethau a chyflwyno ar-lein eu hystyried yn feysydd ar gyfer twf posibl. Mae'r sector yn rhagweld twf o £19.1M yn 2024/25 i £33.4M erbyn 2027/28 yn sgil y gweithgareddau hyn. Mae risgiau'n gysylltiedig â'r ffrydiau incwm newydd hyn a bydd yn cymryd amser i'w sefydlu. Bydd angen i sefydliadau fonitro cynnydd mewn perthynas â'r targedau hyn yn agos er mwyn canfod a lliniaru unrhyw lithriadau mewn rhagolygon incwm. Bydd Medr yn monitro cynnydd mewn perthynas â'r targedau ariannol hyn.

Grantiau cyrff cyllido

Yn unol â'r canllawiau, rhagwelir y bydd grantiau Medr aros yn gymharol wastad.

[19] Cyfwerth â pherson llawn
[20] Mae data agored ar ddomisil myfyrwyr ar gael yn HE Student Data | HESA

Mae grantiau cyrff cyllido yn cynnwys dyraniad cyllid cylchol Ymchwil o Ansawdd o £83.2M yn 2024/25 (2023/24: £89.7M) sy'n cefnogi'r sylfaen ymchwil sylfaenol.[21]

Roedd yr incwm grant a ddangosir yn ffigur 2 yn cynnwys £77.1M o gyllid yn 2024/25 (2023/24: £66.8M), a hynny'n bennaf ar gyfer darpariaeth addysg bellach, lle bo colegau addysg bellach yn rhan o strwythur grŵp prifysgol. Cafodd grantiau 2022/23 eu chwyddo gan grant cyfalaf untro o £30M a gafodd un sefydliad gan gyngor ymchwil.

Heb gynnwys 2022/23 a 2023/24, pan welwyd cyllid sylweddol a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig, mae cyllid grant addysg uwch yn dal i fod tua 11% o gyfanswm yr incwm.

Gweithgarwch ymchwil

Mae cyllid ymchwil yn tueddu i gael ei ariannu drwy grantiau ar gyfer prosiectau penodol. Felly, nid yw'r incwm yn gyson o un flwyddyn i'r llall. Ar ben hynny, bydd grantiau ymchwil mawr yn aml yn rhai cyfalaf eu natur. Ceir dewis o driniaethau cyfrifyddu ar gyfer grantiau cyfalaf, sy'n effeithio ar amseriad cydnabod incwm.[22]

Yr incwm o weithgarwch ymchwil yn 2024/25 oedd £236.6M. Mae'r rhagolygon yn rhagweld twf o 7.2% hyd at 2027/28. Yn 2024/25, cafodd tua 77% o'r incwm hwn ei gynhyrchu gan ddwy brifysgol.

Incwm arall

Rhagwelir rhywfaint o dwf mewn incwm arall hefyd, a hynny i raddau helaeth o ganlyniad i chwyddiant ar wasanaethau masnachol. Mae elw ar fuddsoddiadau wedi bod yn uwch na'r rhagolygon dros y blynyddoedd diwethaf. Rhagwelir y bydd incwm o fuddsoddiadau a rhoddion ac incwm o waddolion yn lleihau, am fod disgwyl y bydd cyfraddau llog yn is ac y bydd hylifedd yn lleihau, gan ostwng lefelau arian parod ar adnau.

Gwariant

Yn 2024/25, cofnododd y sector addysg uwch gyfanswm gwariant o £2,017.8M. Heb gynnwys addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod (credyd o £4.5M) a chostau ailstrwythuro sylfaenol (£48.8M), y gwariant sylfaenol oedd £1,973.5M, sydd 3.0% yn llai na'r flwyddyn flaenorol, ond yn dangos cynnydd i 104.2% o gyfanswm yr incwm oherwydd effaith lleihad sydyn mewn incwm o gymharu â'r cyfnodau hwy sy'n ofynnol i ymgymryd â phrosesau ailstrwythuro a reolir. Mae'r rhagolwg economaidd heriol yn golygu bod sefydliadau'n disgwyl parhau i arfer rheolaeth sylweddol dros gostau, a rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant sylfaenol yn lleihau 2.9% islaw chwyddiant dros y cyfnod hyd at 2027/28. Bydd rheoli costau'n llwyddiannus yn y dyfodol yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer cynaliadwyedd ariannol. Mae rheolaethau costau'n cael eu rhoi ar waith gyda'r bwriad o ddiogelu gweithgareddau addysgu craidd, ansawdd gwaith ymchwil a chymorth i fyfyrwyr lle bynnag y bo modd.

---

[21] Dyraniadau cyllid Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 Er mwyn sicrhau cyllideb fantoledig ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 yn erbyn setliad grant llai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, cyflwynodd CCAUC leihad o £11 miliwn pro rata ar draws ei linellau ariannu cylchol craidd (Ymchwil o Ansawdd, ymchwil ôl-raddedig, Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, a chyllid addysgu gan gynnwys cyllid seiliedig ar gredydau, cyllid y pen a chyllid premiymau). Arweiniodd hyn at leihad o tua 6.3% yng nghyfanswm cyllid cylchol pob darparwr ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25. Gan fod cyllid craidd yn cael ei ddyrannu i sefydliadau ar ffurf grantiau bloc, roedd dilyn dull cyllido y pen yn fodd i sefydliadau unigol benderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain wrth benderfynu sut i reoli dyraniadau llai. Nid yw'r cylchlythyr cyllid yn berthnasol i'r lleihad hwn mewn llinellau unigol ond, ar gyfer blynyddoedd sydd i ddod, bydd Medr yn tybio lleihad cyfartal i bob llinell at ddibenion cymharu o un flwyddyn i'r llall.

[22] *Dull perfformiad* – caiff incwm grant cyfalaf ei gydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant pan fydd sicrwydd rhesymol bod unrhyw feini prawf cydnabod wedi'u bodloni. Caiff y gwariant cysylltiedig ei gyfalafu ar y fantolen a'i ddibrisio dros gyfnod oes yr ased. Felly, pan gaiff y grantiau hyn eu cydnabod, caiff cryn dipyn yn fwy o incwm na chostau ei gynnwys yn y flwyddyn honno. *Dull croniadau* – caiff incwm grant cyfalaf ei gyfateb i'r gwariant cysylltiedig (dibrisiant).

Mae ffigur 6 isod yn dangos y symudiad a gofnodir ac a ragwelir yng ngwariant y sector. Mae costau darpariaethau pensiwn wedi cael eu hechdynnu o gostau staff er mwyn tynnu sylw at yr amrywiadau a achosir gan y dull o gyfrifyddu'r rhain ac felly er mwyn cynrychioli'r costau sylfaenol yn gliriach.

Ffigur 6: Cyfanswm gwariant yn ôl math (£M) [23]



Costau staff

Costau staff yw eitem gwariant fwyaf ond un y sector, ac roedd costau staff sylfaenol yn cynrychioli 58.5% o gyfanswm yr incwm yn 2024/25. Tua 53% oedd y rhain rhwng 2020/21 a 2022/23, a rhagwelir y byddant yn lleihau yn ôl i 55.9% erbyn 2027/28, wrth i effeithiau llawn y prosesau ailstrwythuro gael effaith ac wrth i incwm gynyddu. Heb gynnwys addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod a chostau ailstrwythuro, cyfanswm y costau staff yn 2024/25 oedd £1,108.9M, sef cynnydd o 0.06% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu lleihad o 3.4% mewn niferoedd cyfartalog cyflogeion cyfwerth ag amser llawn yn 2024/25. Mae'r gwahaniaeth hwn yn dangos effaith chwyddiant cyflogau staff a chynnydd mewn cyfraniadau pensiwn. Rhagwelir y bydd niferoedd staff yn lleihau 12.0% yn rhagor erbyn 2027/28, a disgwylir i gostau staff leihau 1.0% yn unig.

Yn 2020/21, roedd prifysgolion yng Nghymru yn cyflogi 20,360 o staff amser llawn a rhan-amser [24]. Tyfodd niferoedd myfyrwyr rhyngwladol cofrestredig yn gyflym o 16,360 yn 2020/21 i 25,955 erbyn 2023/24, a chynyddodd niferoedd staff i 22,610 dros yr un cyfnod er mwyn bodloni'r galw hwn. Mae'r lleihad dilynol mewn niferoedd myfyrwyr rhyngwladol, a phwysau chwyddiant parhaus, sydd ill dau wedi'u nodi mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, wedi arwain at leihad mewn niferoedd staff, i 21,970 yn 2024/25. Disgwylir lleihad pellach wrth i brosesau ailstrwythuro yn y sector barhau.

Rhagwelir y bydd costau ailstrwythuro staff, sef £48.8M yn 2024/25, yn lleihau gan fod rhai sefydliadau wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'r camau lliniaru sy'n ofynnol yn sgil y chwyddiant ar ôl y pandemig a'r lleihad cyflym mewn incwm o ffioedd dysgu myfyrwyr rhyngwladol. Mae lefel yr ailstrwythuro sy'n ofynnol yn sylweddol, yn gyffredin â'r sector yn y DU yn fwy cyffredinol. Mae angen i'r sector daro cydbwysedd rhwng newid maint eu sylfeini costau a'u gallu i sicrhau'r deilliannau gofynnol, cynnal ansawdd a chefnogi adferiad economaidd. Ym marn y sector, mae gwella ffrydiau incwm yn hanfodol er mwyn osgoi newidiadau di-droi'n-ôl i'r sector yn y tymor canolig. Bydd Medr a sefydliadau yn parhau i asesu effaith lleihad mewn niferoedd staff ar ehangder pynciau, darpariaeth arbenigol a chapasiti ar gyfer darpariaeth Gymraeg.

Costiodd cyfraniadau i gynlluniau pensiwn y sector £137.4M i'r sector yn 2024/25. Rhagwelir y bydd y costau hyn yn lleihau 9.0% erbyn 2027/28. Mae Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion a'r rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn llywodraeth leol wedi dychwelyd gwargedau yn eu prisiadau diweddaraf (Mawrth

[23] Nid yw gwariant sylfaenol, costau staff sylfaenol na llog sy'n daladwy yn cynnwys costau ailstrwythuro nac addasiadau cyfrifyddu technegol nad ydynt yn arian parod sy'n gysylltiedig â darpariaethau cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio
[24] HE Staff Data | HESA

2023), gan arwain at leihad mewn cyfraniadau cyflogwyr. Cynyddodd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr y Cynllun Pensiwn Athrawon 5% ym mis Ebrill 2024 i 28.68% o gyflog pensiynadwy, o gymharu â 14.5% ar gyfer prif Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion, a rhwng 17% a 22% ar gyfer y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn llywodraeth leol. Yn wahanol i sefydliadau addysg bellach, ni roddir cyllid ychwanegol i sefydliadau addysg uwch er mwyn lliniaru cost cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn neu gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, ac mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar aelodau presennol y Cynllun Pensiwn Athrawon i barhau i gynnig y cynllun.

Costau gweithredu eraill

Fel y gwelir yn ffigur 6, disgwylir i gostau gweithredu eraill gynyddu ychydig bach dros gyfnod y rhagolygon, oherwydd pwysau chwyddiant. Mae chwyddiant yn arbennig o amlwg yng nghostau cyfleustodau, tanysgrifiadau a thrwyddedau, a deunyddiau.

Dim ond i raddau cyfyngedig y mae'r sector yng Nghymru yn agored i effaith newidiadau yng nghyfraddau llog y banciau. Mae tuag 85% o fenthyciadau ar gyfradd sefydlog neu'n ddi-log[25]. Consesiynau gwasanaeth sydd fwyaf agored i effaith newidiadau, gan fod eu cyfraddau llog yn gysylltiedig â'r mynegai prisiau manwerthu. Mae'r rhain yn cynrychioli tua 7% o gyfanswm dyled y sector. I ddatblygu preswylfeydd myfyrwyr y caiff trefniadau consesiynau gwasanaeth eu defnyddio'n bennaf, a disgwylir i'r costau benthyca gael eu hariannu drwy'r incwm rhent derbyniadwy.

Y sefyllfa weithredu sylfaenol

Y gwarged / (diffyg) gweithredu wedi'i addasu ar gyfer symudiadau mewn darpariaethau pensiynau, sy'n addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod, a chostau ailstrwythuro sylfaenol, y tybir eu bod yn rhai untro, yw'r sefyllfa weithredu sylfaenol.

Mae ffigur 7 isod yn dangos y duedd yn y sefyllfa weithredu sylfaenol o'r canlyniadau gwirioneddol sef 2021/22 tan 2024/25, a'r sefyllfa a ragwelir o 2025/26 tan 2027/28.

Ffigur 7: Gwarged / (diffyg) gweithredu sylfaenol (£M)[26]



Cofnododd y sector ddiffyg sylfaenol o £(79.3)M yn 2024/25, sy'n dangos dirywiad sylweddol o gymharu â'r diffyg o £(55.2)M a gofnodwyd yn 2023/24. Mae hyn o ganlyniad i gyfuniad o gynnydd mewn costau a lleihad mewn myfyrwyr rhyngwladol, yn enwedig ar ôl i fisâu ar gyfer dibynyddion gael eu diddymu o fis Ionawr 2024 ymlaen. Ar hyn o bryd, mae nifer o sefydliadau yn y sector yn

[25] Cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio yw'r benthyciadau di-log. Cânt eu had-dalu drwy'r arbedion effeithlonrwydd a sicrheir.

[26] Gwnaeth ffigurau cyfatebol a gyhoeddwyd yn flaenorol ychwanegu costau pensiwn nad ydynt yn arian parod yn ôl mewn costau staff, ond nid mewn llog sy'n daladwy. Y ffigurau cyfatebol a gyhoeddwyd yn flaenorol yw 2021/22 £65.3M (gan gynnwys £11.3M mewn addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod); 2022/23 £23.7M (gan gynnwys £21.3M mewn addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod); 2023/24 £(57.2)M (gan gynnwys £4.3M mewn addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod)

ailstrwythuro ar raddfa sylweddol er mwyn ailgysoni sylfeini costau â'r lefel is hon o fyfyrwyr. Mae amseriad y prosesau hyn yn amrywio o un sefydliad i'r llall, ond disgwylir i berfformiad sylfaenol ar lefel y sector ddirywio ymhellach i £(96.2)M cyn i effaith lawn arbedion ailstrwythuro gael ei hadlewyrchu mewn gwelliant o 2026/27 ymlaen. Mae'r gwelliannau pellach hyd at 2027/28 hefyd yn adlewyrchu rhywfaint o adfer a/neu amrywiaethu incwm.

Yn 2024/25, cofnododd saith sefydliad ddiffygion gweithredu sylfaenol (2023/24: chwe sefydliad). Rhagwelir y bydd y nifer hwn yn lleihau i chwe sefydliad yn 2025/26, a thri sefydliad yn 2026/27 a 2027/28.

Mae'r dadansoddiad fesul sefydliad unigol yn Atodiad A yn dangos lefel yr amrywiad mewn perfformiad ariannol sylfaenol ar draws y sector.

Cywirdeb rhagolygon

Mae gallu sefydliadau i lunio rhagolygon cywir yn bwysig ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau mewnol sefydliadau a phroses sicrwydd Medr.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae wedi mynd yn fwyfwy heriol llunio rhagolygon. Yn ehangach, dilynwyd yr ansicrwydd ynglŷn ag effaith a hyd y pandemig gan ansicrwydd economaidd – cafodd y rhyfel yn Wcráin effaith ar gadwyni cyflenwi a chostau; cafodd problemau economaidd yn Sri Lanka ac yna Nigeria effaith ar niferoedd y myfyrwyr a dderbynnir; a chafodd newidiadau i bolisi mewnfudo'r DU effaith ar niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol a dderbynnir yn ehangach. Ar lefel y sector yn fwy penodol, cafodd graddau a aseswyd gan athrawon effaith ar gynnydd myfyrwyr, mae ymddygiadau myfyrwyr wedi newid, wrth i nifer y myfyrwyr a gaiff fynediad drwy system glirio gynyddu mewn llawer o sefydliadau, ac mae ymddygiadau cystadleuwyr wedi newid wrth i'r pwysau gynyddu. Ceir mwy o ddibyniaeth ar fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau blwyddyn (ôl-raddedig neu CertHE), yn hytrach na'r cyrsiau tair blynedd mwy traddodiadol. Gall cyllid yn ystod y flwyddyn gan Medr, a'r pwynt cydnabod terfynol ar gyfer grantiau cyfalaf o dan y dull cyfrifyddu perfformiad, effeithio ar ragolygon hefyd.

Gall y gymhariaeth â thueddiadau recriwtio blaenorol arwain at duedd optimistiaeth o fewn rhagolygon hirdymor, yn ogystal ag amharodrwydd dealladwy a rhesymol i wneud newidiadau sylweddol i'r sylfaen gostau os mai dros dro fydd unrhyw leihad mewn incwm yn y pen draw. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd prosesau cadarn ar gyfer monitro cynnydd tuag at dargedau a diwygio gwybodaeth rhagolygon yn rheolaidd yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae ffigur 8 isod yn nodi rhagolygon y sector o ran gwarged / (diffyg) gweithredu sylfaenol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n cymharu'r rhagolwg cynharaf (Rhagolwg 3) â'r diweddariadau diweddarach (Rhagolwg 2 ac 1) a'r deilliant gwirioneddol. Byddai uchder colofnau cyfatebol yn dangos na fu newid rhwng y rhagolwg cynharaf a'r deilliant gwirioneddol. Hyd at 2019/20, roedd y rhagolygon yn cyfateb i'r deilliannau terfynol ar y cyfan, ac roedd rhywfaint o optimistiaeth yn y flwyddyn ddilynol (rhagolwg 3). Cafodd rhagdybiaethau cynnar pwyllog ynglŷn ag effaith y pandemig effaith ar 2020/21 a 2021/22. O 2023/24 ymlaen, gwelir yn glir lefel yr her i lunio rhagolygon cywir oherwydd yr holl ffactorau a ddisgrifir uchod a'r ffaith bod y rhagolygon yn cael eu newid i'w hadlewyrchu.

Ffigur 8: Cywirdeb rhagolygon (£M)[27]



Ar lefel y sector, mae ein data'n dangos bod cyfraddau recriwtio myfyrwyr yn ystod hydref 2025 yn cyfateb i ragolygon 2025 ar y cyfan. Erbyn hyn, mae gan sefydliadau o leiaf un pwynt derbyn ychwanegol yn ystod y flwyddyn academaidd, felly nid yw'r rhagfynegiad o'r alldro terfynol mor glir ag y gallasai fod o'r blaen, ond mae'n dal yn adlewyrchu'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr a gaiff eu recriwtio.

Solfedd a gwydnwch ariannol

Mae hinsawdd ansicr y blynyddoedd diwethaf wedi tanlinellu pwysigrwydd sylfaenol bod â digon o hyblygrwydd arian parod i amsugno heriau a digwyddiadau annisgwyl yn y tymor byr.

Hylifedd

Yn fras, ystyr hylifedd yw'r balans arian parod a ddelir gan ddarparwr ar ddiwedd blwyddyn ariannol (yn yr adroddiad hwn) yn ogystal â buddsoddiadau y gellir eu troi'n arian parod yn hawdd, llai gorbenion. Mesur sy'n cynrychioli nifer y diwrnodau o ddiwedd y flwyddyn ariannol y gall darparwr dalu ei gostau beunyddiol cyfartalog ar eu cyfer o'r arian parod sydd ganddo yn ei gyfrif banc ac unrhyw fuddsoddiadau byrdymor (megis cyfrif cynilo drwy fuddsoddi neu fond byrdymor) yw 'diwrnodau hylifedd net'. Felly, mae'n dangos maint y glustogfa sydd gan ddarparwr rhag heriau ariannol annisgwyl, ac mae'n ddangosydd allweddol ar gyfer gwydnwch ariannol.

Dylid nodi y gall arian parod a ddelir gan ddarparwyr gynnwys cyllid a roddir iddynt ar gyfer prosiectau penodol, sy'n golygu y bydd angen ei 'glustnodi' ar gyfer y prosiectau hyn ac na ellir ei ystyried fel rhan o gyfalaf gweithio tymor hwy. Ymhlith yr enghreifftiau posibl mae cyllid a geir yn benodol ar gyfer prosiectau gwariant cyfalaf. Ni chaiff yr arian parod hwn ei ddatgelu ar wahân ac nid yw hylifedd uwch felly o reidrwydd yn golygu bod gan yr endid lawer o arian parod. Mae'n bwysig nodi mai ciplun o falansau banc a buddsoddiadau amcanestynedig ar ddyddiad diwedd y flwyddyn yw'r data hylifedd. Bydd y prif gyfnod o wariant cyfalaf yn y rhan fwyaf o sefydliadau'n digwydd yn ystod misoedd yr haf, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd; felly, mae'n debygol y bydd yr arian parod sydd ar gael nad yw wedi'i ymrwymo i wariant cyfalaf yn llawer llai. Ar ben hynny, ni chaiff proffil cyllid derbyniadau benthyciadau myfyrwyr, sef prif ffrwd incwm y sector, ei wasgaru'n gyfartal drwy gydol y flwyddyn, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i sefydliadau fod â digon o arian parod ar ddiwedd y flwyddyn i reoli amrywiadau sylweddol mewn derbyniadau arian parod misol.

[27] Casglwyd data ar gyfer cyfnod rhagolwg byrrach yn ystod y pandemig, sy'n golygu nad oes Rhagolwg 3 ar gyfer 2022/23.

Ffigur 9: Hylifedd net (£M a diwrnodau)[28]



Mae ffigur 9 uchod yn dangos yn glir fod pwysau chwyddiant a lleihad mewn incwm wedi erydu cronfeydd arian parod y sector a bod y rhagolygon yn dangos y bydd hynny'n parhau. Mae diwrnodau hylifedd yn symud o 203 diwrnod yn 2022/23 i 159 diwrnod yn 2024/25, ac yna'n lleihau ymhellach i 128 diwrnod erbyn 2027/28. Arian sydd wedi'i glustnodi ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol yw cyfran o hyn, ac felly disgwylir lleihad pellach mewn hylifedd o'r sefyllfa bresennol.

Mae sefyllfa sefydliadau'n fwy amrywiol, gan fod tuag 85% o'r arian parod yn cael ei ddal mewn tri sefydliad. Bydd yr holl sefydliadau'n monitro symudiadau arian parod misol am o leiaf 12 mis i'r dyfodol ac, fel y gwelir yn ffigur 9 uchod, mae mwy ohonynt wedi trefnu cyfleusterau credyd cylchol dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn cefnogi hyblygrwydd arian parod ac amrywiadau mewn proffil arian parod oherwydd natur cyllid y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Ni chaiff elfen nas tynnwyd i lawr y cyfleusterau hyn ei hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol, felly mae argaeledd gwirioneddol arian parod ar gyfer y sefydliadau hyn yn uwch na'r hyn a gofnodir.

Mewnlifoedd / (all-lifoedd) arian parod net o weithgareddau gweithredu

Mae'r gallu i gynhyrchu arian parod o weithgareddau sylfaenol craidd yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd sefydliad yn y tymor canolig a'r tymor hir. At ddibenion cymharu, nodir hyn cyn y costau cyfalaf a fuddsoddir a'r costau cynnal dyledion (ad-daliadau llog a chyfalaf), gan fod amgylchiadau unigol pob darparwr yn dylanwadu ar yr alldaliadau hyn. Mae'r mesur hwn yn cofnodi gwerthoedd uwch na'r gwarged / (diffyg) gweithredu, ond nid yw'n adlewyrchu'r holl alwadau ar arian parod yn ystod blwyddyn. Er enghraifft, fe'i nodir cyn didynnu unrhyw wariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol, dylai sefydliadau fod yn cynhyrchu mewnlifoedd arian parod gweithredu net sy'n uwch na chost cynnal dyledion (ad-daliadau llog a chyfalaf). Mae hyn yn sicrhau y gellir parhau i fuddsoddi mewn staff, profiad myfyrwyr a chyfleusterau er mwyn aros yn gystadleuol, heb erydu'r arian parod a ddelir ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf neu

[28] Mae hylifedd net yn seiliedig ar gostau arian parod sylfaenol (gwariant heb gynnwys dibrisiant, addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod (mewn costau staff a llog sy'n daladwy) a chostau ailstrwythuro sylfaenol). Ni wnaeth ffigurau cyfatebol a gyhoeddwyd yn flaenorol addasu ar gyfer addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod mewn llog sy'n daladwy. Y ffigurau cyfatebol a gyhoeddwyd yn flaenorol yw 2021/22: 229 diwrnod; 2022/23: 201 diwrnod; 2023/24: 192 diwrnod.

ddiogelu at y dyfodol. Mae blynyddoedd diweddar wedi tanlinellu pwysigrwydd hyblygrwydd arian parod er mwyn galluogi sefydliadau i gynllunio'n strategol dan amodau anffafriol.

Ffigur 10: Mewnlifoedd / (all-lifoedd) arian parod net o weithgareddau gweithredu (£M a % o gyfanswm yr incwm)



Cofnododd y sector all-lif arian parod gweithredu net o £(22.5)M ar gyfer 2024/25, sy'n cyfateb i (1.2)% o incwm, o gymharu ag all-lif o £(14.0)M yn 2023/24. Mae effaith rhaglenni trawsnewidiol yn arwain at welliant yn 2025/26 i fewnlif o £6.1M (0.3% o incwm) a rhagwelir y bydd yn gwella i £105.2M erbyn 2027/28. Cofnododd pum sefydliad all-lif arian parod gweithredu yn 2024/25. Mae hyn yn gwella i bedwar yn 2025/26 ac yn adfer i ddim un erbyn 2026/27.

Fel y nodir yn ffigur 10 uchod, o'r arian parod gweithredu a gynhyrchir ganddynt, bydd angen i sefydliadau gynnal unrhyw ad-daliadau dyledion cyn ystyried mewnfuddsoddiad. Ar ôl cynnal dyledion, cofnododd y sector all-lif o £(85.6)M yn 2024/25. Mae hyn yn cynrychioli dirywiad o £13.1M o gymharu â 2023/24 ac yn dangos na wnaeth y sector gynhyrchu dim arian parod yn ôl disgresiwn ar gyfer buddsoddiadau newydd yn ystod y naill flwyddyn na'r llall, er iddo amsugno costau gwaith ailstrwythuro wedi'i gynllunio, a bod unrhyw brosiectau cyfalaf a ariannwyd yn fewnol wedi cael eu hariannu o gronfeydd arian parod. Rhagwelir y bydd 2025/26 yn debyg, gydag all-lif llai o £(47.5)M. Rhagwelir y bydd arian parod gweithredu'n dychwelyd i fewnlif wedi hynny, sef £45.7M (2.3% o incwm) erbyn 2027/28. Yn gyffredinol, tybir bod targed o tua 10-12% o incwm yn rhesymol, gan ddangos bod angen gwneud rhagor o waith i fod mewn sefyllfa gynaliadwy hirdymor. Cofnododd chwe sefydliad all-lifoedd arian parod yn 2024/25. Mae'r rhagolygon yn dangos y bydd hyn yn gwella i un all-lif bach erbyn 2027/28.

Mae all-lifoedd arian parod gweithredu net ar ôl cynnal dyledion yn ddichonadwy dros gyfnodau byr. Gall sefydliadau sydd â mwy o gronfeydd arian parod gynnal y rhain am gyfnodau hwy, ond byddant yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i gynnal 'busnes fel arfer' ar golled, sy'n anghynaliadwy dros gyfnod hir ac yn lleihau balansau arian parod ar gyfer mewnfuddsoddiad, gan effeithio ar gystadleurwydd a hyblygrwydd yn y dyfodol.

Benthyca

Fel y nodir yn ffigur 11, rhagwelir y bydd cyfanswm y benthyca allanol hirdymor yn lleihau'n raddol o £902.2M yn 2024/25 (sy'n cyfateb i 47.6% o incwm) i £855.4M (43.5% o incwm) erbyn 2027/28.

Dim ond un sefydliad sy'n rhagweld cynnydd mewn benthyca dros y cyfnod, er y bydd sefydliadau'n parhau i ddefnyddio benthyciadau llog isel a gefnogir gan y llywodraeth megis Salix a chyfalaf trafodiadau ariannol i gefnogi cynnydd tuag at ddatgarboneiddio pan fyddant ar gael a phan na fydd cyfamodau benthyca eraill yn cyfyngu arnynt. Ni fydd gwariant sy'n gysylltiedig â'r benthyciadau llog isel hyn gan y llywodraeth yn digwydd heb y cyllid allanol, felly ni chaiff y rhain eu cynnwys yn rhagdybiaethau'r rhagolygon nes y byddant wedi'u cadarnhau fel arfer.

Yn ddiweddar, mae'r benthyciadau newydd yn y sector wedi bod ar ffurf cyfleusterau credyd cylchol, er mwyn cefnogi'r amrywiadau mewn proffiliau arian parod drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â chynlluniau a gefnogir gan y llywodraeth.

Mae'r lefel fenthyca hon yn dal yn llawer uwch na chyfartaledd y sector yn y DU (2023/24: 29.8% o incwm[29]). Mae hyn yn adlewyrchu strwythur benthyca yng Nghymru, sydd wedi'i bwysoli tuag at offerynnau hirddyddiedig sydd â chyfraddau sefydlog yn bennaf. Er enghraifft, mae 47.2% o gyfanswm benthyciadau'r sector yng Nghymru yn cynnwys bond cyhoeddus[30]. Mae gan bob bond cyhoeddus gronfa fuddsoddi gysylltiedig wedi'i chlustnodi ar ei gyfer er mwyn hwyluso ad-daliadau. Mae 24.3% arall yn cynnwys trefniadau consesiynau gwasanaeth[31].

Ffigur 11: Benthyca (£M a % o gyfanswm yr incwm)



Pan fydd benthyca'n cynyddu yn y sector, gall costau ad-daliadau llog a benthyciadau gynyddu. Gallai'r cynnydd hwn mewn 'costau sefydlog' roi pwysau ar unrhyw sefydliad sy'n methu â chynyddu incwm a/neu gyfyngu ar gostau eraill er mwyn cynhyrchu digon o arian parod gweithredu i dalu costau dyledion, fel y nodir yn mewnlifoedd / (all-lifoedd) arian parod net o weithgareddau gweithredu uchod. Mae'r sector yng Nghymru wedi'i ddiogelu rhag y risg hon i raddau helaeth, gan fod 82.4% o log ar fenthyciadau ar gyfraddau sefydlog, dros y tymor canolig o leiaf, a 48.9% yn gwbl sefydlog dros gyfnod y benthyciad. Cost flynyddol dyledion y sector yn 2024/25 oedd £63.1M (2023/24: £58.5M). Ar ben hynny, gall cynnydd mewn chwyddiant roi pwysau ar gyfraddau sylfaenol banciau, gan effeithio ar gost unrhyw fenthyca yn y dyfodol.

[29] Daw cymaryddion yn y DU o gyfartaledd y data cyllid HESA ar gyfer sefydliadau y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno ffurflen TRAC.

30 Mae bond cyhoeddus yn ddyled hirdymor. Mae'n ad-daladwy'n llawn ar ddiwedd cyfnod y bond ac yn destun cyfradd llog neu gwpon sefydlog, a delir yn flynyddol.

[31] I ddatblygu preswylfeydd myfyrwyr y caiff trefniadau consesiynau gwasanaeth eu defnyddio'n bennaf, a bydd yr incwm rhent derbyniadwy'n cyfrannu at eu costau benthyca. Yn wahanol i fenthyciad tymor, addasiad cyfrifyddu yw'r atebolrwydd a gydnabyddir, ac ni fydd yn lleihau dros amser, er y gall amrywio pan fydd cytundebau enwebiadau'n amrywio.

Gwariant cyfalaf

Buddsoddiad cyfalaf y sector yn 2024/25 oedd £137.9M, sef lleihad o £36.5M o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fel y gwelir yn ffigur 12, rhagwelir y bydd hwn yn lleihau ymhellach ar ôl y gwariant ymrwymedig yn 2025/26.

Gan fod nifer y grantiau cyfalaf sydd ar gael yn gyfyngedig, mae angen i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gynhyrchu gwargedau a mewnlifoedd arian parod gweithredu er mwyn cynnal lefel y buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau sy'n angenrheidiol er mwyn denu myfyrwyr a staff a sicrhau eu cynaliadwyedd hirdymor. Mae cynnydd mewn gwargedau'n sicrhau'r llif arian parod positif sy'n ofynnol er mwyn ariannu buddsoddiad yn y dyfodol a thalu costau cyllid, gan gynnwys ad-dalu benthyciadau. Yn 2024/25, er mwyn ariannu gwariant cyfalaf, gwerthodd y sector asedau cyfredol am £1.6M; ymrwymodd i fenthyciadau newydd gwerth £34.2M (benthyciadau cyfalaf trafodiadau ariannol ffafriol gan Lywodraeth Cymru[32] yn bennaf); a chafodd gyllid grant cyfalaf gwerth £51.9M, gan godi cyfanswm o £87.7M. Roedd angen i'r £50.2M o wariant cyfalaf sy'n weddill gael ei ariannu o gronfeydd arian parod gan fod y sector wedi cofnodi all-lif arian parod o weithgareddau gweithredu sylfaenol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigur 12 yn dangos sut y cafodd pryniannau cyfalaf eu hariannu dros y blynyddoedd diwethaf.

Dros gyfnod y rhagolygon, bydd sefydliadau'n parhau i ailasesu eu cynlluniau buddsoddi cyfalaf yn sgil ansicrwydd economaidd, cynnydd mewn costau adeiladu (oherwydd chwyddiant prisiau), newid i batrymau gweithio a'u gallu i ariannu lefelau buddsoddi wedi'u cynllunio drwy gynhyrchu arian parod ychwanegol neu fenthyca mwy o arian. Fel rhan o'r mesurau i leihau gwariant, mae sefydliadau hefyd yn gweithio i wella'r defnydd o ofodau. Lle y caiff prosiectau eu hariannu drwy grantiau sefydlog, rhaid i sefydliadau naill ai leihau eu huchelgais, cael gafael ar gyllid o ffynonellau gwahanol neu gynyddu cyfraniadau mewnol.

Ffigur 12: Gwariant cyfalaf yn ôl math (£M)



Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae darparwyr wedi rhewi neu atal gwariant cyfalaf a gwelliannau i seilwaith er mwyn diogelu gwariant gweithredol, ac er mwyn diogelu arian parod i

[32] Benthyciadau cyfalaf trafodiadol ariannol – benthyciadau gan y llywodraeth ar gyfraddau ffafriol y trysorlys ar gyfer prosiectau datgarboneiddio

sicrhau hyblygrwydd yn erbyn heriau a ddisgwylir yn y dyfodol. Mae nifer o sefydliadau'n cyfyngu ar wariant cyfalaf a ariennir yn fewnol i wariant sy'n bwysig i'r busnes yn unig. Yn y tymor byr, bydd lleihad mewn gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio yn effeithio ar ôl-groniadau o waith cynnal a chadw, gan gynyddu costau gwaith cynnal a chadw heb ei gynllunio.

Dros y tymor canolig i'r tymor hir, mae buddsoddi mewn seilwaith, cyfleusterau a chyfarpar yn hanfodol, a gallai tanfuddsoddi yn y maes hwn arwain at fwy o bryderon ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol, yn enwedig pan fydd angen buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw yn fwy sylweddol ac ar fwy o frys, neu pan fydd ansawdd neu addasrwydd cyfleusterau, cyfarpar a seilwaith yn cyfyngu ar weithrediadau neu ddatblygiadau strategol angenrheidiol. Fodd bynnag, gall y pwysau ariannol parhaus ar ddarparwyr arwain at newid i gynlluniau buddsoddi cyfalaf, wrth i ddarparwyr leihau, gohirio neu ganslo prosiectau. Mae sefydliadau nad ydynt yn buddsoddi'n ddigonol yn y maes hwn mewn perygl o fod mewn sefyllfa wannach yn y farchnad ac yn wynebu risg uwch o ansefydlogrwydd ariannol. Hefyd, bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol er mwyn cyrraedd targedau sero net.

Rhwymedigaethau pensiwn

Mae darpariaethau pensiwn yn cynrychioli gwerth cyfredol galwadau'r dyfodol ar y sefydliad o ran costau pensiwn. Bydd y rhain yn newid dros amser wrth i farchnadoedd stoc, rhagdybiaethau marwolaethau a demograffig a mewnbynnau eraill amrywio. Bydd y darpariaethau hyn yn dad-ddirwyn dros gyfnod hir. Darpariaeth pensiwn y sector ym mis Gorffennaf 2024/25 oedd £26.1M, a disgwylir iddi aros o gwmpas y lefel hon. Mae graddfa'r anwadalrwydd yn amlwg yn y lleihad sylweddol mewn darpariaethau pensiwn o uchafbwynt o £773.9M yn 2020/21 i'r ddarpariaeth bresennol yn 2024/25.

Mae prisiadau cynlluniau â buddion wedi'u diffinio[10], fel Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion, cynlluniau pensiwn llywodraeth leol a chynlluniau prifysgolion eu hunain, yn ddibynnol iawn ar giplun o'r marchnadoedd ariannol ar adeg benodol. Felly, er bod prisiadau diweddaraf y cynlluniau hyn yn cyflwyno deilliant mwy cadarnhaol, maent yn parhau i gynrychioli risg sylweddol i'r sector, ac un y maent yn arfer rheolaeth gyfyngedig drosti. Mae ansicrwydd mewn marchnadoedd ariannol, problemau pellach â phrisiadau, a'r asesiad byrdymor o'r mesurau sy'n ofynnol i unioni diffygion hirdymor a nodir o ganlyniad i amrywiadau yn y marchnadoedd, yn debygol o fod yn barhaus. Mae'r amrywiadau ym mhrisiadau cynlluniau pensiwn a'r newid yng nghost buddion pensiwn y dyfodol dros y blynyddoedd diwethaf yn dangos yr anwadalrwydd cynhenid yn neilliannau prisiadau cynlluniau pensiwn y sector, sy'n peri ansicrwydd a risg sylweddol i gynaliadwyedd parhaus.

Ar ben hynny, mae'r sector yn agored i effaith newidiadau i gyfraddau cyfraniadau yng nghynlluniau nas ariennir y sector cyhoeddus, megis y Cynllun Pensiwn Athrawon a Chynllun Pensiwn y GIG.

Gan fod cyfraniadau pensiwn yn cael eu cyfrifo ar sail canran o gyflogau staff, bydd setliadau cyflog yn effeithio ar y costau pensiwn a gyfrifir ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

Ymagwedd dryloyw at gostio a phrisio (TRAC)[33]

Mae prifysgolion yn sefydliadau cymhleth. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i ddeall lefel y trawsariannu rhwng gwahanol ffrydiau gweithgarwch, a'r cyfraniadau ariannol ohonynt[34]. Mae'r rhan fwyaf o hyn yn seiliedig ar ddata TRAC. Proses o gymryd gwybodaeth am wariant sefydliad o ddatganiadau ariannol cyfunol, ac yna gymhwyso'r ffactorau sy'n rheoli costau (megis dyrannu amser staff academaidd a'r defnydd o ofodau) er mwyn dyrannu'r costau hyn i adrannau academaidd a gweithgareddau penodol yw TRAC. Caiff ymyl ar gyfer cynaliadwyedd ei ychwanegu at y costau, er mwyn adlewyrchu cost cynnal a chadw seilwaith, a'r enillion sy'n ofynnol ar gyfer

[33] Ymagwedd Dryloyw at Gostio a Phrisio – TRAC - a guide for senior executives and governing body members
[34] UKRI Data Pack on Research Financial Sustainability Academic Year 2023-24

cyllid a buddsoddiad, yn seiliedig ar gyfartaledd chwe blynedd o wybodaeth wirioneddol a rhagolygon ar gyfer pob sefydliad. Mae'r rhagolygon cyfredol yn cynnwys cryn dipyn o ohirio buddsoddiad er mwyn cadw hyblygrwydd arian parod, felly mae'n bosibl bod yr ymyl hwn wedi'i danddatgan yn erbyn y buddsoddiad llawn sy'n ofynnol ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy.

Mae TRAC yn rhoi darlun gweledol defnyddiol o'r rhyngweithio rhwng amrywiol weithgareddau'r sector. Mae ffigur 13 yn nodi'r ffordd y caiff y gost economaidd lawn ei hadennill ar gyfer pob prif weithgaredd TRAC ar gyfer y sector yng Nghymru.

Ffigur 13: TRAC – adennill y gost economaidd lawn (fEC)[35]



Mae ffigur 13 yn dangos bod y sector, gan gynnwys yr ymyl ar gyfer cynaliadwyedd, wedi bod yn gweithredu ar ddiffyg ar y cyfan.

Mae adenillion addysgu a ariennir yn gyhoeddus, ar gyfer myfyrwyr o'r DU ar y cyfan, wedi lleihau dros y cyfnod i sefyllfa o ddiffyg yn sgil effaith cynnydd mewn chwyddiant ar gap sefydlog ar ffioedd.

Yn hanesyddol, mae addysgu nas ariennir yn gyhoeddus, ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ar y cyfan, wedi bod yn rhyng-gysylltiedig iawn â gwaith ymchwil. Mae sefydliadau arweiniol yn uchelgeisiol ynglŷn â chael presenoldeb ar y llwyfan byd-eang. Mae enw da yn rhyngwladol am waith ymchwil yn effeithio ar nifer y myfyrwyr rhyngwladol y gall sefydliad eu denu, ac mae hynny yn ei dro yn helpu gweithgarwch ymchwil i fod yn gynaliadwy oherwydd y croes-gymorthdalu y mae'n ei alluogi. Felly, rhaid ystyried y diffyg TRAC a gofnodir ar gyfer gwaith ymchwil yng nghyd-destun strategol ehangach y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys rôl hirdymor gwaith ymchwil i gefnogi enw da, arloesedd, denu talent, effaith economaidd, recriwtio myfyrwyr a chydberthnasau â busnesau.

Ar ben hynny, dros y blynyddoedd diwethaf, mae twf o ran recriwtio myfyrwyr o farchnadoedd mwy newydd sy'n sensitif i brisiau, ynghyd â chostau cynyddol ffioedd asiantiaid a chymorth i fyfyrwyr ar gyfer domisiliau lluosog myfyrwyr, a'r gostyngiad mewn cyfraddau recriwtio rhyngwladol, wedi effeithio ar adenillion ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru, a byddant yn cael effaith bellach yn 2024/25. Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fydd croes-gymorthdalu'n dod yn ofynnol ar gyfer addysgu a ariennir yn gyhoeddus yn ogystal â gwaith ymchwil.

Mae adenillion ymchwil ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllidwyr ymchwil mawr yn y sector cyhoeddus megis UKRI wedi'u dylunio i gael eu 'hariannu'n ddeuol', gydag 80% o'r costau'n cael eu hariannu ac 20% yn cael eu talu gan y sefydliad, yn seiliedig ar brisiad y cais. Ar gyfer cyllid gan

[35] Mae data ar gyfer y DU i'w gweld yn TRAC data - 2023-24 - Office for Students. Mae data Cymru yn gyfrinachol.

elusennau, a fydd ym maes gwaith ymchwil meddygol fel arfer, disgwylir cyfraniad mwy gan y sefydliad. Fel arfer, caiff cyfraniad y sefydliad ei dalu drwy incwm o ffioedd myfyrwyr rhyngwladol neu o gyllid Ymchwil o Ansawdd heb ei neilltuo[36] a ddarperir gan Medr. Mae cyllid Ymchwil o Ansawdd wedi'i ddylunio i gefnogi ac annog gwaith ymchwil ac arloesi sylfaenol. Mae'n cynnig sefydlogrwydd, gan alluogi staff ymchwil i gael eu cadw rhwng prosiectau a ariennir drwy gyllid grant, yn ariannu gwaith ymchwil archwiliol cychwynnol neu waith ymchwil y mae sefydliad yn credu ei fod yn bwysig yn strategol, ac yn cefnogi seilwaith sylfaenol megis swyddfeydd rheoli gwaith ymchwil a hyfforddiant, yn ogystal â chyfrannu at gostau llawn grantiau prosiectau. Mae cyllid ymchwil heb ei neilltuo Medr hefyd yn cynnwys elfen i gefnogi hyfforddiant ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi nodi bod gwaith ymchwil ac arloesi yn ysgogi twf economaidd. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae dyraniadau Ymchwil o Ansawdd wedi aros yn wastad neu wedi lleihau dros y pum mlynedd diwethaf, sy'n cynrychioli lleihad mewn termau real. Mae cyllid Ymchwil o Ansawdd wedi cynyddu yng ngwledydd eraill y DU dros yr un cyfnod o bum mlynedd, gan roi sefydliadau yng Nghymru dan anfantais ym marchnad y DU ar gyfer grantiau prosiect cystadleuol.

Fel y gwelir yn ffigur 13, cyfanswm yr adferiad yn 2023/24, gan gynnwys Ymchwil o Ansawdd, yw 63%, a hynny'n rhannol oherwydd pwysau chwyddiant na roddir cyfrif amdanynt wrth bennu costau cynigion. Bydd yr ymarferion torri costau presennol yn effeithio ar flaenoriaethau a dewisiadau sefydliadau ynghylch pa waith ymchwil y gall pob un ei fforddio, a allai leihau cwmpas gwaith ymchwil, cyfleoedd i ymchwilwyr gyrfa gynnar, a'r cyflenwad o waith ymchwil yn y dyfodol o ganlyniad i hynny. Bydd yn cymryd amser i effaith hyn ddod i'r amlwg yn llwyr, a rhagor o amser i wrthdroi'r dirywiad.

Mae gweithgarwch cynhyrchu incwm arall yn dangos effaith y pandemig ar niferoedd a gwasanaethau masnachol yn glir. Hefyd, mae pwysau costau byw a chwyddiant uchel yn cael effaith barhaus ar allu sefydliadau i adfer yn llawn yn y meysydd hyn.

[36] Heb fod yn gysylltiedig â phrosiectau penodol na gweithgareddau rhagnodedig yng nghyd-destun ehangach cyllid ymchwil

Atodiad A: Penawdau sefydliadau[37]

Ffigur 14: Crynodeb o benawdau prifysgolion yng Nghymru

		Aberystwyth £000	Bangor £000	Caerdydd £000	Met Caerdydd £000	Abertawe £000	De Cymru £000	Y Drindod Dewi Sant £000	Wrecsam £000
Cyfanswm yr incwm	**2024/25**	**127,435**	**157,930**	**634,741**	**148,589**	**333,645**	**221,611**	**209,777**	**60,431**
	2023/24	*126,313*	*170,118*	*649,068*	*144,860*	*381,695*	*242,912*	*202,701*	*62,409*
Prif warged / (diffyg) gweithredu	**2024/25**	**(5,147)**	**(18,878)**	**(57,279)**	**(3,860)**	**(39,385)**	**(1,186)**	**1,695**	**425**
	2023/24	*26,388*	*28,862*	*137,437*	*(3,038)*	*82,916*	*(1,312)*	*30,596*	*1,148*
Gwarged / (diffyg) gweithredu heb gynnwys addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod[38]	**2024/25**	**(3,273)**	**(18,994)**	**(60,076)**	**(4,221)**	**(38,485)**	**(3,242)**	**(612)**	**775**
	2023/24	*(10,701)*	*(19,072)*	*(21,017)*	*(6,615)*	*(12,747)*	*140*	*(4,002)*	*1,378*
Gwarged / (diffyg) sylfaenol[39]	**2024/25**	**(2,181)**	**(13,939)**	**(35,727)**	**(673)**	**(30,963)**	**1,308**	**1,209**	**775**
	2023/24	*(8,603)*	*(18,673)*	*(21,017)*	*(5,236)*	*(4,286)*	*4,799*	*(3,543)*	*1,378*
Mewnlif / (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu	**2024/25**	**11,352**	**(3,888)**	**(12,364)**	**4,836**	**(15,630)**	**(9,845)**	**4,660**	**(1,650)**
	2023/24	*429*	*5,727*	*1,839*	*(977)*	*(18,639)*	*4,707*	*(3,627)*	*(3,482)*
Mewnlif / (all-lif) arian parod net ar ôl cynnal dyledion	**2024/25**	**2,961**	**(12,978)**	**(25,206)**	**1,805**	**(34,434)**	**(15,154)**	**(976)**	**(1,650)**
	2023/24	*(3,229)*	*(3,572)*	*(12,580)*	*(2,740)*	*(37,001)*	*(1,261)*	*(8,651)*	*(3,487)*
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod (gan gynnwys buddsoddiadau byrdymor)	**2024/25**	**9,979**	**15,824**	**415,059**	**44,182**	**97,510**	**169,244**	**18,191**	**25,097**
	2023/24	*7,305*	*33,480*	*426,496*	*42,882*	*125,722*	*199,511*	*16,578*	*24,118*
Benthyca allanol	**2024/25**	**65,807**	**84,102**	**443,687**	**16,454**	**216,179**	**37,463**	**38,553**	**-**
	2023/24	*69,781*	*88,474*	*427,379*	*18,406*	*214,588*	*40,777*	*32,724*	*-*

[37] Gellir cael rhagor o fanylion am berfformiad ariannol cyhoeddedig sefydliadau unigol o'u gwefannau neu o HE Finance Data | HESA

[38] Addasiadau cyfrifyddu technegol a gaiff eu cynnwys mewn costau staff a llog sy'n daladwy yw addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod.

[39] Diffinnir 'sylfaenol' fel ffigur nad yw'n cynnwys addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod (mewn costau staff a llog sy'n daladwy) na chostau ailstrwythuro sylfaenol.

Ffigur 15: Crynodeb o fetrigau ariannol prifysgolion yng Nghymru

Fel % o gyfanswm yr incwm		Aberystwyth	Bangor	Caerdydd	Met Caerdydd	Abertawe	De Cymru	Y Drindod Dewi Sant	Wrecsam
Gwarged / (diffyg) gweithredu heb gynnwys addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod	**2024/25**	**(2.6%)**	**(12.0%)**	**(9.5%)**	**(2.8%)**	**(11.5%)**	**(1.5%)**	**(0.3%)**	1.3%
	2023/24	*(8.5%)*	*(11.2%)*	*(3.2%)*	*(4.6%)*	*(3.3%)*	*0.1%*	*(2.0%)*	*2.2%*
Gwarged / (diffyg) sylfaenol [40]	**2024/25**	**(1.7%)**	**(8.8%)**	**(5.6%)**	**(0.5%)**	**(9.0%)**	**0.6%**	**0.6%**	**1.3%**
	2023/24	*(6.8%)*	*(11.0%)*	*(3.2%)*	*(3.6%)*	*(1.1%)*	*2.0%*	*(1.7%)*	*2.2%*
Costau staff sylfaenol	**2024/25**	**56.3%**	**60.0%**	**59.7%**	**65.1%**	**59.8%**	**57.5%**	**50.4%**	**56.6%**
	2023/24	*59.6%*	*58.5%*	*57.5%*	*67.3%*	*52.1%*	*53.4%*	*51.1%*	*49.3%*
Gwariant gweithredu arall	**2024/25**	**30.6%**	**35.1%**	**36.2%**	**26.6%**	**38.1%**	**34.7%**	**42.5%**	**37.7%**
	2023/24	*32.2%*	*38.9%*	*36.1%*	*29.0%*	*38.6%*	*37.6%*	*43.2%*	*43.6%*
Mewnlif / (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu	**2024/25**	**8.9%**	**(2.5%)**	**(1.9%)**	**3.3%**	**(4.7%)**	**(4.4%)**	**2.2%**	**(2.7%)**
	2023/24	*0.3%*	*3.6%*	*0.3%*	*(0.7%)*	*(5.6%)*	*2.1%*	*(1.7%)*	*(5.8%)*
Mewnlif / (all-lif) arian parod net ar ôl cynnal dyledion	**2024/25**	**2.3%**	**(8.2%)**	**(4.0%)**	**1.2%**	**(10.3%)**	**(6.8%)**	**(0.5%)**	**(2.7%)**
	2023/24	*(2.5%)*	*(2.3%)*	*(2.0%)*	*(1.8%)*	*(11.1%)*	*(0.6%)*	*(4.1%)*	*(5.8%)*
Benthyca allanol	**2024/25**	**51.6%**	**53.3%**	**69.9%**	**11.1%**	**64.8%**	**16.9%**	**18.4%**	**-**
	2023/24	*54.8%*	*56.0%*	*67.3%*	*12.4%*	*64.3%*	*18.4%*	*15.6%*	*-*
Metrigau eraill									
Diwrnodau hylifedd net [41]	**2024/25**	32	37	244	117	107	300	34	161
	2023/24	22	72	251	111	130	327	31	152
Diwrnodau hylifedd net gan gynnwys cyfleusterau credyd cylchol nas tynnwyd i lawr	**2024/25**	51	96	279	117	135	300	34	161
	2023/24	31	125	287	111	155	327	31	152

[40] Nid yw 'sylfaenol' yn cynnwys addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod (mewn costau staff a llog sy'n daladwy) na chostau ailstrwythuro

[41] Mynegir hylifedd net fel nifer diwrnodau o wariant sylfaenol (heb gynnwys dibrisiant, costau ailstrwythuro nac addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod)

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government